Joint review

Cydadolygiad

Arweiniad i Gydadolygiadau yng Nghymru

SSIW AGCC
SOCIAL SERVICES INSPECTORATE FOR WALES
AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

G/022/05-06
ISBN 0 7504 3876 2

Mehefin
CMK-22-11-002

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2005

CYNNWYS

RHAGAIR

RHAGARWEINIAD

CRYNODEB

Beth yw pwrpas cydadolygiadau?

Beth yw cydadolygiad?

Pwy sy'n gyfrifol am gydadolygiadau?

Sail ddeddfwriaethol cydadolygiadau

Cydadolygiadau a'r rhaglen arolygu yn gyffredinol

1 CYFLWYNO CYDADOLYGIADAU

1.1 Pam y mae gwasanaethau cymdeithasol yn bwysig Tudalen 9

1.2 Pwy sy'n gyfrifol am gynnal y gwasanaethau cymdeithasol Tudalen 9

1.3 Gwella'r gwasanaethau cymdeithasol Tudalen 10

1.4 Swyddogaeth rheoleiddio, arolygu ac adolygu Tudalen 12

1.5 Ymateb i newid Tudalen 13

1.6 Y rhaglen cydadolygiadau Tudalen 15

2 AIL GYLCH CYDADOLYGIADAU YNG NGHYMRU

2.1 Dysgu o brofiad y cylch cyntaf Tudalen 17

2.2 Y newidiadau Tudalen 17

2.3 Datblygiadau pellach Tudalen 21

3 Y FFRAMWAITH ADOLYGU

3.1 Egwyddorion, gwerthoedd a chod ymddygiad Tudalen 23

3.2 Trefniadau atebolrwydd, rheoli a llywodraethu Tudalen 23

3.3 Trefniadau sicrhau ansawdd Tudalen 25

3.4 Barnu perfformiad Tudalen 27

3.5 Datrys anghydfodau Tudalen 30

3.6 Rolau a chyfrifoldebau'r tîm cydadolygu Tudalen 31

3.7 Cysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr Tudalen 32

3.8 Rôl aelodau etholedig Tudalen 35

3.9 Adnoddau ar gyfer yr adolygiad Tudalen 36

3.10 Amseru'r adolygiad Tudalen 36

4 Y BROSES ADOLYGU

4.1 Camau'r adolygiad Tudalen 37

4.2 Tasgau Tudalen 39

4.3 Cynllunio prosiectau ar gyfer cydadolygiadau Tudalen 41

4.4 Y llawlyfr cydadolygiadau Tudalen 43

Atodiad 1 - Cynnwys y Llawlyfr Cydadolygiadau

Rhagair

Gobeithiwn y bydd y llyfryn hwn yn arweiniad defnyddiol i gydadolygiadau yng Nghymru. Ei fwriad yw cyflwyno mewn modd hawdd ei ddeall y fframwaith cyffredinol ar gyfer ail gylch y cydadolygiadau a ddechreuodd yn 2004. Mae'n rhaid wrth gryn ymdrech ac adnoddau er mwyn cynnal yr adolygiadau. Bydd yr arweiniad hwn yn ei gwneud hi'n haws i'r holl randdeiliaid baratoi ar gyfer cydadolygiad, rheoli'r broses ac elwa ar y canlyniad. Amlinellir ynddo y sail resymegol sy'n sylfaen i'r rhaglen adolygu a strwythur y broses adolygu.

Cynhyrchwyd crynodeb o'r arweiniad ar gyfer aelodau etholedig.

Er hwylustod, mae deunydd mwy manwl ar gael yn y Llyfryn Cydadolygiadau y mae ei gynnwys wedi'i amlinellu yn Atodiad 1. Mae'r Llawlyfr yn eich arwain yn gronolegol drwy wahanol gamau'r broses o gynnal cydadolygiadau a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hwy. Ceir ynddo dempledi, ffurflenni, protocolau, deunyddiau briffio ac ati. Mae'r Llawlyfr ar gael ar y wefan ar gyfer cydadolygiadau. Defnyddir y Llawlyfr yn benodol ar gyfer deunydd y mae angen ei ddiweddaru yn fwy rheolaidd o ganlyniad i'r canlynol:

- sylwadau gan awdurdodau lleol, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ac eraill;
- datblygiadau ehangach ym maes gofal cymdeithasol ac o ran y llywodraeth.

Ceir taflenni gwybodaeth am gydadolygiadau ar gyfer y cyhoedd (gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr) a rhanddeiliaid eraill (gan gynnwys staff gwasanaethau cymdeithasol, asiantaethau sy'n bartneriaid, mudiadau gwirfoddol a darparwyr eraill ym maes gofal cymdeithasol).

Mae pob arweiniad a thaflen ar gael mewn print bras neu ar ffurfiau eraill. Fe'u ceir ar y wefan ar gyfer cydadolygiadau a gwefannau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Rhagarweiniad

Mae gan awdurdodau lleol ran allweddol i'w chwarae o ran diogelu'r aelodau mwyaf agored i niwed yn y gymuned a helpu i ddiwallu eu hanghenion o safbwynt gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl sydd â phroblem iechyd meddwl, pobl sydd ag anabledd dysgu a phobl sydd ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau. Mae hefyd yn golygu sicrhau bod cymorth ar gael i'r rheini sy'n gofalu am eraill, gan gynnwys gofalwyr ifanc.

Mae Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn gweithio gyda'i gilydd i helpu gwella'r gwasanaethau cyhoeddus hanfodol hyn a thrwy hynny ansawdd bywyd y bobl hynny sy'n dibynnu ar wasanaethau cymdeithasol.

Mae'r rhaglen cydadolygiadau yng Nghymru yn gyfle da i ni ymuno â nifer o randdeiliaid eraill er mwyn cyflawni'r amcanion cyffredin hyn. Mae'n gyfrwng hanfodol i:

- sicrhau atebolrwydd cyhoeddus;
- cynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i godi safonau ym maes darpariaeth gofal cymdeithasol;
- helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol a'u hagendâu eu hunain ar gyfer gwella'r gwasanaethau cymdeithasol;
- cefnogi defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr a'r cyrff sy'n cynrychioli eu buddiannau wrth bwyso am wasanaethau sy'n fwy hyblyg ac sy'n ymateb fwy i anghenion;
- deall yn well pa wasanaethau sy'n gweithio orau a sut y gallant gael eu darparu yn fwy effeithlon.

Roedd gan gylch cyntaf yr adolygiadau ran bwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at wella perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Bu'n llwyddiannus iawn yn helpu cynghorau i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae cydadolygiadau yn gryn her bellach ac maent yn rhoi pwysau mawr ar gyrff i newid.

Wrth gyflwyno'r rhaglen newydd, bydd AGCC a SAC yn anelu at ddylanwadu i'r graddau y bo'n bosibl ar y rhaglenni ar gyfer gwella y mae angen i bob awdurdod lleol fynd i'r afael â hwy. Rhagwelwn fanteision sylweddol o ran effeithlonrwydd y cydadolygiadau o ganlyniad i'r canlynol:

- mwy o integreiddio o fewn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella;
- ymdrechion i ymgorffori yn y rhaglen ddatblygiadau newydd mewn arferion rheoleiddio ac adolygu;
- mwy o gyswllt â'r agenda unigryw Gymreig mewn meysydd megis polisi cymdeithasol, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Amlinellir yn yr arweiniad hwn y sail resymegol sy'n ganolog i'r rhaglen newydd ar gyfer cydadolygiadau a sut y mae'r themâu hyn wedi dylanwadu ar y modd y caiff ei chyflwyno.

Hoffem ddiolch i'r holl randdeiliaid, yn arbennig aelodau'r grwpiau cyfeirio a'r amryw bobl a gymerodd ran yn yr ymgynghori, am eu cyfraniad i'r deunydd sydd yn yr arweiniad hwn.

Graham Williams, Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol
Jeremy Colman, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru

Crynodeb

Mae'r crynodeb hwn yn ddisgrifiad byr o'r cyfraniad a wnaed gan gydadolygiadau at y rhaglen gyffredinol o wella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Manylir ar bob un o'r holl faterion sydd yn y crynodeb mewn adrannau eraill o'r arweiniad.

Beth yw pwrpas cydadolygiadau?

Yn ôl y gyfraith, mae gan y ddau awdurdod lleol ar hugain yng Nghymru gyfrifoldebau sylweddol o ran:

- cynllunio gwasanaethau cymdeithasol;
- gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol.

Golyga hyn felly fod gan awdurdodau lleol ran allweddol i'w chwarae wrth ddiogelu'r aelodau mwyaf agored i niwed yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl sydd â phroblem iechyd meddwl, pobl sydd ag anabledd dysgu, pobl sydd ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau a gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc).

Mae'r gwasanaethau hyn yn rhai hanfodol. Mae'n bwysig bod gwasanaethau yn cael eu darparu i'r safon uchaf bosibl o ran ymateb i amgylchiadau unigol, diwallu anghenion tra gwahanol a helpu pobl i gyflawni eu potensial llawn mewn perthynas ag annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol.

Cred y llywodraeth fod gan adolygiad allanol, yn annibynnol ar yr awdurdodau lleol, ran i'w chwarae o ran:

- rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu mewn modd sy'n ddiogel ac yn briodol;
- cyfrannu at wella'r gwasanaethau hynny.

Pwrpas cydadolygiadau felly yw:

- asesu'n wrthrychol, ar sail tystiolaeth, pa mor dda y mae'r bobl yn cael eu gwasanaethu gan eu gwasanaethau cymdeithasol;
- cyfrannu'n adeiladol at wella'r gwasanaethau a ddarperir;
- helpu i ddiogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr;
- sicrhau gwell gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol

Beth yw cydadolygiad?

Cydadolygiad yw archwiliad a gynhelir o holl swyddogaethau awdurdod lleol ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Fe'i cynhelir bob pum mlynedd. Ar ôl dadansoddi amrywiaeth mawr o ddeunydd am yr awdurdod lleol a'r gwasanaethau a ddarpara, bydd y tîm a fydd yn cynnal yr adolygiad yn treulio hyd at fis yn yr ardal yn gwneud ymchwiliadau pellach.

Defnyddir nifer o wahanol ddulliau i farnu pa mor dda y mae pobl yn cael eu gwasanaethu gan y gwasanaethau cymdeithasol a pha mor dda y mae'r awdurdod lleol wedi'i drefnu ei hun i gynnal a gwella gwasanaethau. Er enghraifft:

- cyfweliadau gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr;
- cyfweliadau gyda phobl sy'n gyfrifol am drefnu neu ddarparu gwasanaethau
- arolygon ar ffurf holiadur ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a staff gwasanaethau cymdeithasol;

- dadansoddi ffeiliau achos;
- cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr nifer o wahanol gyrff a grwpiau;
- ymweliadau â safleoedd lle darperir gwasanaethau cymdeithasol.

Ar ddiwedd pob adolygiad, bydd y tîm cydadolygu yn cyhoeddi adroddiad. Disgrifir ynddo yr hyn y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ei wneud yn dda yn lleol a'r meysydd hynny y mae angen eu gwella fwyaf er mwyn sicrhau canlyniadau da ar gyfer defnyddwyr y gwasanaethau a gofalwyr. Mewn ymateb i'r adroddiad, bydd yr awdurdod lleol yn cynhyrchu cynllun gweithredu yn amlinellu sut y bydd yn cyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen. Mae yna raglen y cytunwyd arni er mwyn monitro sut y caiff y cynllun hwn ei roi ar waith.

Cynhaliwyd cydadolygiad ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru yn ystod y cylch cyntaf (1998-2003). Defnyddir yr un drefn at ei gilydd wrth eu hadolygu yn ystod yr ail gylch a ddechreuodd yn 2004.

Pwy sy'n gyfrifol am gydadolygiadau?

Deillia'r enw "cydadolygiad" o'r ffaith bod y cyfrifoldeb am reoli rhaglen gyfan yr adolygiadau ac am gynnal pob adolygiad unigol yn cael ei rannu gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae AGCC yn arolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, yn hyrwyddo arferion da a datblygiad gwasanaethau ac yn darparu cyngor proffesiynol i'r Gweinidogion. Mae SAC yn hyrwyddo gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus drwy sicrhau ei fod yn cael ei wario'n briodol a hynny yn unol â gwerth gorau. Mae'n helpu awdurdodau lleol i wella pa mor effeithiol yw eu trefniadau i reoli adnoddau, perfformiad a llywodraethu corfforaethol.

Mae'r ddau gorff wedi ymrwymo i ddefnyddio arferion gorau yn seiliedig ar yr egwyddorion a amlinellwyd gan y llywodraeth. Yn unol â hynny, wrth arolygu gwasanaethau cyhoeddus dylid:

- mynd i'r afael â dibenion gwella;
- canolbwyntio ar ganlyniadau;
- edrych ar faterion o bersbectif y defnyddwyr;
- bod yn gymesur â'r risg;
- annog rheolwyr i asesu eu hunain;
- defnyddio tystiolaeth ddiduedd, lle bo modd;
- datgelu'r meini prawf a ddefnyddiwyd wrth wneud penderfyniadau;
- bod yn agored am y prosesau sydd ynghlwm;
- ystyried gwerth am arian, gan gynnwys y corff sy'n arolygu;
- dysgu'n gyson o brofiad.

Cyfraniad arbennig cydadolygiadau yw eu bod yn dwyn ynghyd arbenigedd proffesiynol a rheolaethol AGCC a'r pwyslais a rydd SAC ar werth am arian a llywodraethu corfforaethol wrth wneud gwerthusiad cynhwysfawr o wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn eu cyfanrwydd (o safbwynt ansawdd, perfformiad a chost).

Sail ddeddfwriaethol cydadolygiadau

Deillia sail statudol ail gylch y cydadolygiadau o'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

O dan Adran 92 o'r Ddeddf, rhoddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y swyddogaeth gyffredinol o annog gwella'r gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol Cymru. Mae Adran 94 yn caniatáu iddo gynnal adolygiadau ac ymchwiliadau i'r modd y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyflawni eu swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r tasgau hyn yn cael eu cyflawni gan AGCC ar ran y Cynulliad Cenedlaethol.

Wrth wneud hynny, bydd AGCC yn rhoi sylw arbennig i'r canlynol:

- pa wasanaethau sydd ar gael ac a ydynt o fewn cyrraedd;
- ansawdd y gwasanaethau a pha mor effeithiol y maent;
- sut y caiff y gwasanaethau eu rheoli;
- pa mor ddiwastraff ac effeithlon yw eu darpariaeth a'u gwerth am arian;
- y wybodaeth sydd ar gael i'w darparu i'r cyhoedd am y gwasanaethau ac ansawdd y wybodaeth honno;
- yr angen i ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant.

Mae hawl i fynd i mewn i adeiladau a phwerau i ofyn am wybodaeth neu eglurhad ynghlwm wrth y swyddogaethau hyn.

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, mae gan SAC gyfrifoldebau pwysig o ran archwilio ac arolygu'r dyletswyddau a roddwyd i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill wrth sicrhau gwelliannau parhaus a gwerth gorau. Ceir darpariaeth gyfreithiol benodol yn y Ddeddf Comisiwn Archwilio 1998 sy'n caniatáu iddo gynorthwyo Cynulliad Cenedlaethol Cymru â'r gwaith o gynnal y cyfryw adolygiadau.

Cydadolygiadau a'r rhaglen arolygu yn gyffredinol

Mae cydadolygiadau yn rhan annatod o raglen arolygu gyffredinol AGCC sydd wedi'i threfnu ar sail cylch o bum mlynedd. Maent yn cyfrannu at y gwerthusiad blynyddol a wneir gan AGCC, drwy ymgynghori â rheoleiddwyr eraill, o berfformiad awdurdodau lleol ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Maent hefyd yn elwa ar y gwerthusiadau hynny. Mae i hyn yn ei dro swyddogaeth bwysig yn y fframwaith cynhwysfawr a ddarperir gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Mae'r cydadolygiadau hefyd yn sail i werthusiad ehangach o berfformiad ym maes gofal cymdeithasol ac yn cyfrannu at ddatblygu polisi gofal cymdeithasol.

1 CYFLWYNO CYDADOLYGIADAU

1.1 Pam y mae gwasanaethau cymdeithasol yn bwysig

Mae gofal cymdeithasol o'r safon uchaf yn rhan hanfodol o wead ein cymdeithas a'r cymunedau yr ydym oll yn byw ynddynt. Mae ystod cyfrifoldebau'r gwasanaethau cymdeithasol yn eang. Maent yn rhoi gofal a chymorth i blant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl sydd â phroblem iechyd meddwl, pobl sydd ag anabledd dysgu, pobl sydd ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau a grwpiau eraill sy'n agored i niwed neu mewn perygl. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn yn helpu'r rheini sy'n gyfrifol am ofalu am eraill, gan gynnwys gofalwyr ifanc. Mae'n debyg y bydd gan bob teulu aelod a fydd yn dibynnu ar wasanaethau cymdeithasol ar ryw adeg neu'i gilydd.

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn diogelu'r aelodau mwyaf agored i niwed ac yn galluogi pobl i fyw yn fwy annibynnol. Mae hyn yn rhoi iddynt rôl allweddol wrth wireddu'r dyheadau ar gyfer adfywio cymunedau a chymdeithas sydd mor gynhwysol â phosibl.

1.2 Pwy sy'n gyfrifol am gynnal y gwasanaethau cymdeithasol?

Mae'r ddau awdurdod lleol ar hugain yng Nghymru yn gyfrifol am:

- gynllunio gwasanaethau cymdeithasol;
- gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol.

Gwnânt hynny o fewn fframwaith a ddarperir gan y gyfraith, rheoliadau a chanllawiau penodol.

Gwelir yr awdurdodau hyn yn rheoli busnes sy'n tyfu yn ei gwmpas ac sy'n gymhleth ei natur ar ran y bobl leol. Mae dros 100,000 o bobl yn derbyn cymorth gan awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol ar unrhyw adeg yn benodol. Gwnânt hynny mewn nifer o leoliadau gan gynnwys eu cartrefi eu hunain, lleoliadau dydd a chartrefi preswyl. Mae awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn gwario oddeutu £850 miliwn o arian trethdalwyr bob blwyddyn. Mae tua 70,000 o bobl yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol, 28,000 ohonynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol. Ar gyfartaledd, mae pob cyngor lleol sy'n gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol yn neilltuo 19% o'i gyllideb i faes gofal cymdeithasol. Daw'r rhan fwyaf o'r arian hwn yn uniongyrchol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond bydd cynghorau unigol yn gyfrifol am benderfynu ar eu blaenoriaethau a'u gwariant eu hunain o fewn fframwaith y ddeddfwriaeth a'r arweiniad cenedlaethol (er mwyn sicrhau gwerth gorau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a'r trethdalwyr sy'n ariannu'r gwasanaethau).

Ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 (a roddodd i'r awdurdodau lleol y cyfrifoldeb am gynllunio gwasanaethau cymdeithasol a gwneud trefniadau i'w darparu), mae deddfwriaeth ychwanegol wedi dylanwadu'n drwm ar y modd y mae gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu.

Yn wreiddiol, roedd yr awdurdodau lleol yn darparu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn uniongyrchol. Roeddent yn gyfrifol am drefnu, rheoli a staffio canolfannau dydd, gwasanaethau gofal cartref, gwasanaethau preswyl a gwasanaethau eraill. Bellach, rhoddir pwyslais ar annog awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill (megis y GIG) wrth gynllunio, trefnu a darparu gofal cymdeithasol yn eu hardal. Mae rhai gwasanaethau yn cael eu darparu o hyd gan ddarparwyr mewnol ond gwelir fwyfwy yr awdurdodau lleol yn prynu gwasanaethau megis gofal cartref a gofal preswyl gan nifer o ddarparwyr yn y sectorau gwirfoddol a phreifat.

Mae newidiadau yn digwydd ar bob lefel - nid yn unig yn y man lle caiff y gwasanaeth ei ddarparu ond hefyd o ran datblygu polisïau, arolygu a rheoleiddio a hefyd o fewn yr awdurdodau lleol eu hunain - hyn oll â'r nod clir o wella ansawdd profiad y bobl hynny y mae angen gwasanaethau cyhoeddus arnynt ac sydd yn eu defnyddio.

1.3 Gwella'r gwasanaethau cymdeithasol

Mae disgwyliadau uwch bellach ynglŷn â pherfformiad y gwasanaethau hanfodol hyn wrth ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Mae sawl agwedd ar y pwysau yma i wella.

a) Yn sgil deddfwriaeth megis Deddf Plant 1989 a Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 rhoddwyd dyletswyddau ac ymrwymiadau sylweddol ar awdurdodau lleol, yn arbennig o ran eu hannog i ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaethau.

b) Bu buddsoddi ar lefel nas gwelwyd o'r blaen ym maes gofal cymdeithasol. Disgwylia llywodraeth ganol i'r buddsoddiad hwn arwain at ddiwygiadau a fydd yn sicrhau ansawdd y gwasanaeth a gwerth am arian. Mae trethdalwyr am wybod bod defnydd da yn cael ei wneud o'u harian. Yn yr hinsawdd wleidyddol ac economaidd sydd ohoni mae'n rhaid wrth gyfuniad o welliannau yn y gwasanaethau a gynigir ac arbedion effeithlonrwydd. Mae'n rhaid i unrhyw arian newydd a fuddsoddir yn y gwasanaethau cyhoeddus arwain at wir fanteision a gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. I'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae'r gofynion a'r pwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau cymdeithasol yn arbennig o gyfnewidiol ac anodd eu rheoli. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyllidebu ar sail blaenoriaethau, rheolaeth ariannol dda a dealltwriaeth o'r costau.

c) Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ceisio defnyddio'r pwerau a ddatganolwyd iddynt mewn modd a fydd yn sicrhau safonau uchel o ran y gofal cymdeithasol a ddarperir.

Yng nghyd-destun y newid yn y modd y mae Cymru yn cael ei llywodraethu, gwelir hefyd gyfeiriadau polisi newydd yn esblygu ar draws holl ystod y cyfrifoldebau a ddatganolwyd mewn meysydd megis adfywio cymunedau a diogelwch cymunedol. Bydd y polisïau hyn yn dylanwadu i raddau helaeth ar holl swyddogaethau awdurdodau lleol a'r modd y cânt eu cyflawni. Gwelir llawer o bwyslais yn cael ei roi ar y canlynol:

- partneriaeth â llywodraeth leol, busnesau a'r sector gwirfoddol;
- gwerthoedd craidd cydraddoldeb a chynaliadwyedd.

Mewn dogfen bolisi allweddol gan y weinyddiaeth newydd, Cymru: Gwlad Well, mae'r Cynulliad yn amlinellu ei flaenoriaethau o gwmpas themâu cyfiawnder cymdeithasol, gwella iechyd a lledaenu ffyniant. Ceir yn Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a'r modd y cânt eu cynllunio a'u cyflwyno yng Nghymru. Mae pedair egwyddor i'r rhaglen.

1. **Rhoi grym yn nwylo'r dinesydd a chanolbwyntio ar y dinesydd wrth gyflwyno gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion y cyhoedd.** Gwneir hyn drwy ddeall yn well anghenion a chanfyddiadau dinasyddion; cryfhau atebolrwydd democrataidd; sicrhau bod modd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ddod o hyd i wasanaethau a chael cymorth yn well; rhoi mwy o lais i ddinasyddion, cymunedau a busnesau yn y modd y mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno.

2. **Creu gwasanaeth cyhoeddus ar sail mwy o gydweithredu ac sydd wedi'i integreiddio'n well ac yn fwy atebol gyda'r dolenni cyswllt yn symlach a llai o waith papur a mwy o sylw yn cael ei roi i ganlyniadau.**

3. **Sicrhau'r gwerth mwyaf o'r hyn sy'n cael ei wario er mwyn cyflwyno gwell gwasanaethau.**

4. **Hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.** Mae angen i wasanaethau cyhoeddus ymateb i bobl a chymunedau sydd dan anfantais a mynd at y rheini sydd fywaf anodd eu cyrraedd.

Yr uchod fydd y themâu allweddol i'r Cynulliad a'r gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol.

d) Mae cryn dystiolaeth mai cymysg yw'r perfformiad ar draws Cymru wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol. Caiff hyn ei adlewyrchu fel a ganlyn:

- canfyddiadau rhaglen AGCC ar werthuso perfformiad blynyddol ac agweddau eraill ar ei rhaglenni arolygu a datblygu
- y gwaith a wneir gan SAC, gan gynnwys ei swyddogaeth o ran cydgysylltu gweithgareddau rheoleiddio yn unol â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella;
- Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru o dan ofal Derek Wanless.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd, yn rhannol drwy annog mwy o integreiddio ar draws y meysydd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a thrwy ddefnyddio safonau cenedlaethol. O dan y Ddeddf Safonau Gofal, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pennu safonau gofynnol cenedlaethol yn ymwneud â materion megis:

- dewis gwasanaeth
- cynllunio ar gyfer anghenion a dymuniadau unigol
- ansawdd bywyd
- ansawdd gofal a thriniaeth
- staffio
- rheoli
- pryderon, cwynion ac amddiffyn
- yr amgylchedd ffisegol.

Mae Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru bellach yn rheoleiddio'r cyrff sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys busnesau preifat a chyrff gwirfoddol.

e) Gosodwyd ar gyfer llywodraeth leol ei hun agenda heriol i foderneiddio a sicrhau bod y gwasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt yn cael eu rheoli'n effeithiol. Yn sylfaen i hyn y mae gofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Ansawdd y gofal cymdeithasol a ddarperir yn lleol yw un o'r prif feincnodau y caiff perfformiad awdurdod lleol ei fesur yn ei erbyn. O ganlyniad i hynny, daeth gwella gwasanaethau lleol yn flaenoriaeth gorfforaethol allweddol.

f) Mae gwella'r broses o weithio mewn partneriaeth a chydweithio ar draws y sector cyhoeddus yn flaenoriaeth bolisi amlwg yng Nghymru. Mae gwasanaethau'n cael eu darparu fwyfwy drwy bartneriaethau sy'n cynnwys y sectorau preifat a gwirfoddol. Mae angen i bartneriaethau weithio'n well er mwyn gwneud gwahaniaeth i'r bobl. Mae trefniadau newydd yn dod i'r amlwg hefyd.

Er enghraifft mae cwmpas ardaloedd byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol sy'n ffinio â'i gilydd yn gyfle da i hyrwyddo gwaith partneriaeth wrth gynllunio, comisiynu a darparu holl ystod y gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae pwysigrwydd annog asiantaethau i weithio gyda'i gilydd er mwyn datblygu gwasanaethau sy'n cynnig cymorth i deuluoedd o ansawdd da ac er mwyn amddiffyn plant yn nodwedd amlwg ar wasanaethau plant. Mae rhaglenni megis Cefnogi Pobl wedi annog partneriaethau sy'n cynnwys awdurdodau lleol a nifer o ddarparwyr gwasanaethau i gynnig mwy o gyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaethau fyw yn annibynnol. Yn yr un modd, mae angen i'r bobl hynny sydd ag anableddau elwa ar y cyfleoedd cynyddol sydd i gael gwaith o ganlyniad i lwyddiant partneriaethau adfywio.

g) Yn rhan o'u hagenda hwy eu hunain ar gyfer gwella, mae awdurdodau lleol wrthi yn ceisio datblygu gwell dealltwriaeth o ba wasanaethau sy'n gweithio, y costau sydd ynghlwm, y ffordd orau o ddarparu neu gomisiynu'r gwasanaethau a sut y gallant gael eu darparu a'u rheoli'n effeithlon. Mae'n rhaid i lywodraeth leol nid yn unig ddarparu gwasanaethau o ansawdd a gweithredu agenda genedlaethol gyffredin, ond hefyd nodi a mynd i'r afael ag anghenion lleol penodol ac ymateb mewn ffyrdd arloesol. Mae sialensau newydd ynghlwm wrth rôl awdurdodau lleol o gynnig arweiniad i'r gymuned o ran dyrannu adnoddau yn unol â blaenoriaethau, hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol er lles y bobl hynny sy'n dibynnu ar wasanaethau cymdeithasol. Wrth gyflwyno'r strategaethau lleol hyn, mae yna anawsterau ynghlwm wrth ddelio â cheisiadau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd a buddiannau sy'n groes i'w gilydd. Mae sefydlu trefniadau llywodraethu effeithiol a'r gallu i wneud y defnydd gorau o allu'r cyngor i reoli yn ffactorau hanfodol wrth reoli gofynion o'r fath.

h) Mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, y cyrff sy'n cynrychioli eu buddiannau, y bobl hynny sy'n hyrwyddo eu hachos o fewn llywodraeth leol a thu hwnt wedi defnyddio dulliau newydd o gymryd rhan (megis y fframweithiau i gynllunio gwasanaethau) er mwyn pwyso am wasanaethau sy'n fwy hyblyg ac yn ymateb yn well i anghenion. Mae defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus yn llai parod i dderbyn gwahanol lefelau o safonau mewn ardaloedd tebyg ar sail cod post. Mae eu disgwyliadau yn cynyddu gyda grwpiau eiriolaeth yn cymryd arnynt rôl weithredol wrth hyrwyddo'r hawl i ofal, dewis, hyblygrwydd a pharch.

Mae gofalwyr yn helpu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed a'r rhai sydd dan anfantais yn ein cymdeithas. Maent yn rhoi yn hael o'u hamser a'u hegni, yn gorfforol ac yn emosiynol, i gyflawni'r tasgau hyn. Wrth i ofalwyr ennill mwy o hawliau i gael asesiad o'u hanghenion, mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn dechrau ymateb i'r her o gynorthwyo gofalwyr a dod o hyd i ffyrdd o ddiwallu'r anghenion hynny.

Gwelir mwy o amrywiaeth yn ein cymunedau bellach ac mae angen i wasanaethau cyhoeddus ymateb yn well drwy ddarparu gwasanaethau sy'n sensitif o safbwynt diwylliannol. Rhoddir mwy o bwyslais ar sicrhau cyfle cyfartal o ran y gallu i fanteisio ar wasanaethau a'r angen i ddiwallu gofynion statudol mewn perthynas ag iaith, hil, oed, tueddfryd rhywiol, rhyw, anabledd a chrefydd.

1.4 Swyddogaeth rheoleiddio, arolygu ac adolygu

Cred y llywodraeth fod gan adolygiad allanol, yn annibynnol ar yr awdurdodau lleol, ran i'w chwarae o ran:

- rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu mewn modd sy'n ddiogel ac yn briodol;
- cyfrannu at wella'r gwasanaethau hynny.

Yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, rhoddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y swyddogaeth gyffredinol o annog gwella'r gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae Adran 94 o'r Ddeddf yn caniatáu iddo gynnal adolygiadau ac ymchwiliadau i'r modd y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r gwasanaethau cymdeithasol. Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) sy'n cyflawni'r dyletswyddau hyn ar ran y Cynulliad. Mae hefyd yn helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i lunio polisi ac yn cyfrannu at ddatblygu arferion gorau mewn awdurdodau lleol. Drwy ymgynghori ag arolygiaethau ac asiantaethau gwella eraill, bydd AGCC yn cynnal gwerthusiad blynyddol o berfformiad pob awdurdod lleol unigol sy'n gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus. Mae gan bob awdurdod lleol arolygydd cyswllt sy'n helpu i sicrhau bod AGCC yn gweithredu mewn dull integredig o fewn yr awdurdod hwnnw.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn hyrwyddo gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus drwy benodi archwilwyr i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol a hynny mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian. Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1999, mae gan y Comisiwn gyfrifoldebau pwysig o ran archwilio'r ddyletswydd a roddwyd i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill sicrhau gwelliannau parhaus. Mae'n helpu awdurdodau lleol i wella pa mor effeithiol yw eu trefniadau i reoli adnoddau, perfformiad a llywodraethu corfforaethol. Mae swyddogaeth allweddol i SAC o ran cydgysylltu'r fframwaith rheoleiddio a gyflwynwyd gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella (gan gynnwys dadansoddiad o'r awdurdod cyfan, asesiad risg, cynlluniau gwella a rheoleiddio). Mae rheolwr perthynas yn cael ei benodi ar gyfer pob awdurdod lleol er mwyn helpu i sicrhau bod y rhaglen arolygiadau sy'n berthnasol i'r awdurdod hwnnw yn hylaw, wedi'i chydgysylltu'n dda ac yn gymesur â'r risg.

Dyma'r cyd-destun trefniadol a deddfwriaethol ar gyfer cydadolygiadau yng Nghymru. Comisiynwyd cylch cyntaf y cydadolygiadau yng Nghymru gan AGCC a'r Comisiwn Archwilio ac maent yn gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno'r ail gylch.

Mae'r ddau gorff wedi ceisio sicrhau bod y fframwaith ar gyfer cydadolygiadau yn adlewyrchu'r arferion gorau a'r egwyddorion a bennwyd gan y llywodraeth y dylai arolygiadau o wasanaethau cyhoeddus:

- fynd i'r afael â dibenion gwella;
- canolbwyntio ar ganlyniadau;
- edrych ar faterion o bersbectif y defnyddwyr;
- bod yn gymesur â'r risg;
- annog rheolwyr i asesu eu hunain;
- defnyddio tystiolaeth ddiduedd, lle bo modd;
- datgelu'r meini prawf a ddefnyddiwyd wrth wneud penderfyniadau;
- bod yn agored am y prosesau sydd ynghlwm;
- ystyried gwerth am arian, gan gynnwys y corff arolygu ei hun;
- dysgu'n gyson o brofiad.

1.5 Ymateb i newid

Mae AGCC a SAC yn bwriadu sicrhau bod cydadolygiadau, er eu bod yn cael eu cynnal ar wahân i'w gilydd, hefyd yn rhan annatod o'u rhaglen gyffredinol a'u gwaith o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Mae hynny wedi golygu:

i) ystyried y newidiadau yng nghyd-destun cyffredinol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol;

ii) ymgorffori datblygiadau newydd o ran arferion rheoleiddio ac arolygu;
iii) ymdrin mewn dull mwy holistaidd â'r cysylltiadau rhwng gofal cymdeithasol a gofal iechyd.

a) Mae'r agenda polisi cymdeithasol yn symud yn gyflym iawn ac mae'n hanfodol bod y trefniadau gogyfer â'r cydadolygiadau yn ystyried y datblygiadau yn y cyd-destun gwleidyddol a strwythurol, megis:

- newidiadau yng ngweinyddiaeth gofal cymdeithasol a noddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- yr agenda foderneiddio ym maes llywodraeth leol, gan gynnwys y pwyslais cynyddol ar graffu ar wasanaethau a rheoli perfformiad.

Fwyfwy bellach, gwelir awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol lleol yn ymdrin â materion megis cynhwysiant cymdeithasol o safbwynt y cyngor cyfan, yn defnyddio ystod eang o ddarparwyr gwasanaethau ac yn hyblyg yn eu defnydd o wahanol ffynonellau ariannu. Mae effaith y newidiadau hyn yn amrywio fesul awdurdod. Rhaid i fethodoleg y cydadolygiad fod yn ddigon hyblyg i ymdopi ag amrywiaeth o'r fath gan ddefnyddio dull cyffredin o fesur yr effaith ar ansawdd y gwasanaeth.

b) Mae'r fframwaith rheoleiddio ac arolygu yn newid yn sylweddol ac yn gyflym yn arbennig yn sgil datblygiadau megis:

- y gofynion yn unol â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella bod awdurdodau lleol yn adolygu eu gwasanaethau yn rhan o'r dadansoddiad ar gyfer yr awdurdod cyfan a'r cynllun gwella;
- yn unol â'r un rhaglen, y broses o gynnal asesiad risg blynyddol a chytuno ar gynlluniau rheoleiddio;
- y system newydd lle bo AGCC yn gwerthuso perfformiad blynyddol awdurdodau lleol ym maes gwasanaethau cymdeithasol;
- y gwaith a wneir i wella arferion arolygu a rheoleiddio gan yr holl gyrff a gynrychiolir ar Fforwm Arolygiaeth Cymru (er mwyn cydgysylltu gweithgareddau, lleihau baich rheoleiddio lle bo modd a dyfeisio dulliau arolygu mwy effeithiol);
- y pwyslais (o dan y Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a rhaglenni eraill) ar ddefnyddio arolygiadau, archwiliadau ac adolygiadau i hyrwyddo gwelliannau;
- creu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (gan alluogi cynnal mwy o waith rheoleiddio a chraffu annibynnol mewn perthynas â darpariaeth gofal cymdeithasol);
- creu arolygiaeth gofal iechyd ar gyfer Cymru;
- annog defnyddwyr gwasanaethau i gymryd mwy o ran yn y broses o gynllunio gwasanaethau a gwerthuso ansawdd gwasanaethau.

Ni ddylai cydadolygiadau ddyblygu gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan eraill. Dylent ddefnyddio'r gwaith hwn yn effeithiol er mwyn lleihau baich rheoleiddio ar awdurdodau lleol, gan ymgorffori'r wybodaeth a gynhyrchwyd o ganlyniad i weithgareddau arolygu neu reoleiddio eraill.

Yn allweddol, dylai cydadolygiadau gael eu cynllunio fel y bônt yn ychwanegu gwerth ac yn awdurdod unigryw, o ganlyniad i archwiliadau annibynnol a chynhwysfawr o wasanaethau cymdeithasol, er mwyn dilysu unwaith bob pum mlynedd y dyfarniadau sy'n deillio o brosesau eraill.

Cyfraniad arbennig cydadolygiadau yw eu bod yn dwyn ynghyd arbenigedd proffesiynol a rheolaethol AGCC a'r pwyslais a rydd SAC ar werth am arian a llywodraethu corfforaethol wrth wneud gwerthusiad cynhwysfawr o wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn eu cyfanrwydd o safbwynt ansawdd, perfformiad a chost.

c) Rhaid i'r rhaglen cydadolygiadau ymateb i'r gofynion newydd o ran darparu gofal cymdeithasol drwy bartneriaethau, cynllunio ar y cyd rhwng nifer o asiantaethau a chomisiynu ar y cyd gan awdurdodau a chyrff y GIG. Mae'r gwaith sydd i'w wneud ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a chynrychiolwyr lleol y GIG wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau ar bob lefel - yn strategol, yn weithredol ac o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau unigol - yn golygu bod mwy o angen integreiddio'r gwaith a wneir gan AGCC, SAC a'r arolygiaethau iechyd. Bydd y rhaglen cydadolygiadau yn elwa ar y dull hwn a datblygiadau eraill megis creu ardaloedd cydffiniol ar gyfer byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, y gwaith a wneir yn cynhyrchu Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles lleol a chreu Asiantaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Er na fu'r corff hwn mewn bodolaeth ond am gyfnod byr yn unig, sefydlwyd eisoes gysylltiadau agos ag AGCC a SAC. Gwelwyd canlyniadau positif hyd yma, megis y bwriad i gydgysylltu ei rhaglen arolygiadau â'r rhaglen cydadolygiadau.

1.6 Y rhaglen cydadolygiadau

Cydadolygiad yw archwiliad a gynhelir o holl swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol. Fe'i cynhelir bob pum mlynedd. Pwrpas y rhaglen cydadolygiadau yw:

- asesu'n wrthrychol, ar sail tystiolaeth, pa mor dda y mae'r bobl yn cael eu gwasanaethu gan eu hawdurdod gwasanaethau cymdeithasol;
- cyfrannu'n adeiladol at wella ymhellach y gwasanaethau a ddarperir;
- helpu i ddiogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr;
- sicrhau gwell gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol.

Ar ôl dadansoddi amrywiaeth mawr o ddeunydd am yr awdurdod lleol a'r gwasanaethau a ddarpara, bydd y tîm a fydd yn cynnal yr adolygiad yn treulio hyd at fis yn yr ardal yn gwneud ymchwiliadau pellach.

Defnyddir nifer o wahanol ddulliau i farnu pa mor dda y mae pobl yn cael eu gwasanaethu gan y gwasanaethau cymdeithasol a pha mor dda y mae'r awdurdod lleol wedi'i drefnu ei hun i gynnal a gwella gwasanaethau. Er enghraifft:

- cyfweliadau gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr;
- cyfweliadau gyda phobl sy'n gyfrifol am drefnu neu ddarparu gwasanaethau
- arolygon ar ffurf holiadur ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a staff gwasanaethau cymdeithasol;
- dadansoddi ffeiliau achos;
- cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr nifer o wahanol gyrff a grwpiau;
- ymweliadau â safleoedd lle darperir gwasanaethau cymdeithasol.

Ar ddiwedd pob adolygiad, cyhoeddir adroddiad sy'n amlinellu'r casgliadau cyffredinol ynghylch pa mor dda y mae'r bobl leol yn cael eu gwasanaethu ac i ba raddau y mae'r awdurdod mewn sefyllfa i gynnal a gwella ei berfformiad.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r dystiolaeth allweddol a gasglwyd yn ystod yr adolygiad ac yn nodi cryfderau ac arferion da yn ogystal â meysydd i'w datblygu. Bydd yn cynnig trosolwg o'r modd y bydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn hytrach na gwneud gwerthusiad manwl o bob agwedd ar y gwaith. Bydd yr adolygiad a'r adroddiad yn nodi materion allweddol ac yn cynnal archwiliadau manwl neu'n gwneud sylwadau manwl yn eu cylch.

Mewn ymateb i'r adroddiad, bydd yr awdurdod lleol yn cynhyrchu cynllun gweithredu yn amlinellu sut y bydd yn cyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen. Rhaid i AGCC a SAC gytuno ar gynnwys y cynllun gweithredu hwn. Mae yna raglen y cytunwyd arni er mwyn monitro sut y caiff y cynllun ei roi ar waith.

Mae cydadolygiadau yn dechrau drwy edrych ar brofiad y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Bydd yr adolygwyr yn ystyried hyn ochr yn ochr â'r arferion rheoli yn yr awdurdodau lleol sy'n darparu'r gwasanaethau hynny, gan asesu a ydynt yn cynnig gwerth am arian.

Sylfaen yr adolygiad yw'r ddealltwriaeth na chaiff pobl wasanaeth da oni bai:

- bod yr awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau sy'n gweddu i'r bobl, yn hytrach na chynnig ar eu cyfer y gwasanaethau traddodiadol sydd eisoes ar gael;
- bod yr awdurdodau lleol yn dysgu beth sy'n gweithio'n dda ar yr adeg honno ac yn defnyddio'r gwersi hyn i ail-lunio eu gwasanaethau, er mwyn sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer defnyddwyr a gofalwyr yn y dyfodol;
- bod y gwasanaethau cymdeithasol yn pennu safonau clir ac yn rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ac yn gweithredu systemau rheoli perfformiad effeithiol er mwyn cyrraedd y safonau hyn;
- bod pob punt sy'n cael ei gwario yn cael ei gwario at ddibenion penodol, bod y costau'n cael eu harchwilio'n barhaus ac y sicrheir gwerth gorau.

Cynhaliwyd cydadolygiad ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru yn ystod y cylch cyntaf (1998-2003). Defnyddir yr un drefn at ei gilydd wrth eu hadolygu yn ystod yr ail gylch a ddechreuodd yn 2004. Drwy ymgynghori â'r rhanddeiliaid allweddol, bydd AGCC a SAC yn parhau i ystyried yr egwyddorion (a fydd o bosibl yn gwrthdaro yn erbyn ei gilydd) a fydd yn penderfynu ar gyflymdra cyflwyno'r rhaglen gyfan.

2 AIL GYLCH CYDADOLYGIADAU YNG NGHYMRU

2.1 Dysgu o brofiad y cylch cyntaf[1]

Gwnaeth cylch cyntaf yr adolygiadau gyfraniad pwysig at wella perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Bu'n llwyddiannus iawn yn helpu cynghorau i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Roedd sylfaen gadarn i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Pwysleisiai'r angen i gasglu gwybodaeth a oedd yn drylwyr ac yn ddigonol fel sylfaen i wneud penderfyniadau am berfformiad a'r gallu i wella. Rhoddwyd cryn hygrededd i ganfyddiadau'r cydadolygiadau, yn rhannol am y tybiwyd eu bod yn gynhwysfawr ac yn annibynnol. Mae llawer o bwys yn cael ei roi ar gydadolygiadau bellach ac maent yn gryn her i'r cyrff dan sylw. Maent hefyd yn rhoi cryn bwysau ar y cyrff hynny i newid. Mae awdurdodau fel rheol yn cydnabod y modd y mae cydadolygiadau wedi ysgogi newid, gan eu helpu i ddyfeisio a chyflwyno rhaglenni ar gyfer gwella.

Am y rhesymau hyn, bydd llawer yn gyffredin rhwng cylch cyntaf y rhaglen cydadolygiadau a'r ail. Mae'r canlynol ymhlith yr elfennau a fydd yn cynnig parhad:

- y nodau
- yr egwyddorion sylfaenol
- y cylch adolygiadau
- y broses yn ei chyfanrwydd
- y dulliau gwerthuso a ddefnyddir
- y ddau ddimensiwn o fewn y dyfarniad cyffredinol
- eglurder yr hyn a ddywedir
- y dull o archwilio'r gwasanaethau cymdeithasol fel cyfrifoldeb corfforaethol ar ran yr awdurdod lleol
- nodi arferion da
- pwyslais ar werth hunanasesiad.

Hyd yn oed yn ystod y cylch cyntaf, gwelwyd cydadolygiadau yn esblygu wrth i'r tîm ymateb i newidiadau yng nghyd-destun cyffredinol y gwasanaethau cymdeithasol ac i ddatblygiadau yn y broses gwerthuso. O ganlyniad i'r fframwaith trefniadol newydd ar gyfer cynnal cydadolygiadau bu modd defnyddio'r elfennau gorau o'r drefn flaenorol gan sicrhau, ar yr un pryd, bod addasiadau pellach yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau:

- bod barn a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael eu cynrychioli cystal ag y bo modd;
- bod y cydbwysedd gorau posibl yn cael ei daro rhwng yr angen am elfen gynhwysfawr ac unffurf ym mhob adolygiad a'r angen am hyblygrwydd wrth benderfynu pa feysydd penodol y mae angen craffu arnynt yn fanylach (er mwyn lleihau'r baich ar yr awdurdod lleol);
- cysondeb wrth gynnal pob adolygiad.

2.2 Y newidiadau?

Ceir mwy o fanylion am y newidiadau hyn mewn adrannau eraill o'r arweiniad ac yn y Llawlyfr Cydadolygiadau.

1 Cyhoeddodd y Tîm Cydadolygiadau adroddiad blynyddol gan ddwyn ynghyd y negeseuon cyffredinol a ddeilliodd o'r adolygiadau. Cynhyrchwyd hefyd o bryd i'w gilydd adroddiadau ar themâu penodol megis gwasanaethau plant (Getting the Best from Children's Services 1999) neu adnoddau dynol(Mae Angen Pobl ar Bobl 2000). Yn yr adroddiad diweddaraf Old Virtues, New Virtues cafwyd golwg ar y newidiadau mewn gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y saith mlynedd pryd y cynhaliwyd cydadolygiadau yn Lloegr rhwng 1996 a 2003.

Timau Adolygu

Bydd AGCC a SAC yn dod at ei gilydd i ffurfio partneriaeth uniongyrchol er mwyn cynnal ail gylch yr adolygiadau[2]. Bydd y timau adolygu yn cynnwys staff o'r ddau gorff ynghyd â staff ychwanegol sydd â'r profiad a'r arbenigedd priodol. Bydd yr adolygiadau cyntaf yn cael eu harwain gan bobl a gafodd brofiad o weithio ar gylch cyntaf y cydadolygiadau.

Aseswyr lleyg

Bydd y timau adolygu yn cynnwys aseswyr lleyg a gafodd eu recriwtio a'u dosbarthu drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Mae gan aseswyr lleyg bersbectif gwahanol i'w gynnig ac mae iddynt swyddogaeth arbennig wrth sicrhau bod barn a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael eu cynrychioli'n briodol. Mae'r broses recriwtio a luniwyd yn un systematig ac fe'i seiliwyd ar ganllawiau clir sy'n amlinellu'r rhinweddau personol, y wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol. Bydd aseswyr lleyg yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu a chyngor cyson gan CGGC. Mae eu swyddogaeth wedi'i diffinio'n fanwl yn y Llawlyfr Cydadolygiadau.

Strwythuro'r dystiolaeth a'r canfyddiadau

Bydd y dystiolaeth a geir yn ystod yr adolygiad yn cael ei threfnu yn unol â'r penawdau gan AGCC wrth werthuso perfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Cafodd y rhain yn eu tro eu llunio i adlewyrchu dau ddimensiwn y dyfarniad a roddir yn ystod y cydadolygiad.

Pa mor dda yw'r gwasanaethau?

Cael gafael ar wasanaethau
Asesu
Rheoli ac adolygu gofal
Ystod y gwasanaethau a ddarperir
Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir
Trefniadau i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed
Llwyddiant o ran hybu annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol.

I ba raddau y mae'r awdurdod mewn sefyllfa i gynnal a gwella'i berfformiad?

Gweithlu
Rheoli perfformiad
Cynllunio a phartneriaethau
Comisiynu a chontractio
Adnoddau
Arweiniad a diwylliant
Rhoi cymorth a chraffu o safbwynt corfforaethol a gwleidyddol

2 Cynhaliwyd cylch cyntaf yr adolygiadau gan dîm arbennig a gomisiynwyd gan yr Arolygiaeth Gasanaethau Cymdeithasol (Lloegr), AGCC a'r Comisiwn Archwilio. Daethant i ben yn 2003-4.

Mae AGCC a SAC wedi gwneud y broses o lunio dyfarniadau yn fwy tryloyw. Ar gyfer pob un o'r pedwar maes ar ddeg, mae'r Llawlyfr Cydadolygiadau yn diffinio'r hyn sy'n cael ei fesur, yn cynnig cysyniadau allweddol perthnasol ac yn amlinellu sail y dyfarniad.

Bydd yr un strwythur yn cael ei ddefnyddio yn yr adroddiadau. Yn ogystal â'r dyfarniad cyffredinol, bydd yr adolygwyr hefyd yn llunio asesiad o dan bob un o'r penawdau gan fanylu ar y cryfderau a'r gwendidau cymharol.

Bydd defnyddio'r strwythur hwn drwy gydol yr adolygiad yn dangos yn gliriach y dilyniant sy'n rhan o'r broses o gasglu a dadansoddi'r wybodaeth, ystyried y dystiolaeth, cyflwyno'r canfyddiadau a llunio'r dyfarniad.

Y broses adolygu

Mae'r broses wedi'i rhannu fel a ganlyn er mwyn gwahaniaethu rhwng pob cam yn fwy clir:

- **cyfnod eang a chynhwysfawr ei gwmpas**, lle rhoddir pwyslais ar gasglu gwybodaeth o amryw ffynonellau a defnyddio nifer o wahanol ddulliau (dadansoddi gwybodaeth sydd eisoes yn bod am berfformiad, arolygon, dadansoddi ffeiliau, cyfweliadau gyda grwpiau o randdeiliaid);
- **asesiad interim a dadansoddiad risg**, lle bo'r wybodaeth o'r cam cyntaf yn cael ei dadansoddi a lle bo'r tîm adolygu yn sefydlu faint o wybodaeth ddibynadwy sydd eisoes ar gael, yn gwneud asesiad dros dro o'r cryfderau a'r gwendidau cymharol ac yn penderfynu pa feysydd y dylid canolbwyntio arnynt wrth gynnal y prif waith maes;
- **y prif waith maes neu'r adolygiad manwl**, sef cyfnod a fydd yn cael ei rannu'n dri bloc o amser pryd y bydd yr adolygwyr yn edrych yn fanylach ar y meysydd a ddewiswyd (gan ddefnyddio technegau sy'n edrych ar wahanol haenau'r corff dan sylw a'i weithgareddau ac sy'n eu pwyso a'u mesur yn erbyn ffynonellau eraill o dystiolaeth);
- **ôl-weithredu**, sef y cyfnod pryd y caiff yr adroddiad ei gynhyrchu a'i gyhoeddi, pryd y bydd yr awdurdod lleol yn cynllunio ac yn cyflwyno gwelliannau mewn ymateb i argymhellion ac y bydd rhaglen fonitro yn cael ei llunio er mwyn sicrhau canlyniadau positif.

Yr un fydd y nod cyffredinol: llunio darlun cytbwys o berfformiad gan dynnu sylw at arferion da yn ogystal ag unrhyw bryderon. Fodd bynnag, bydd y newidiadau i'r broses yn caniatáu i'r canfyddiadau interim gael eu rhannu â'r awdurdod lleol yn gynharach.

Gwybodaeth ymlaen llaw

Bydd y wybodaeth i'w darparu ymlaen llaw yn cynnwys i raddau helaeth wybodaeth o ffynonellau sydd eisoes ar gael, gan gynnwys deunydd o'r Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a gwerthusiadau perfformiad AGCC, arolygiadau ac adolygiadau blaenorol. Ni fydd angen mwyach i awdurdodau lleol baratoi datganiadau maith sy'n cymryd cryn amser i'w llunio ynghylch eu sefyllfa. Gofynnir iddynt yn hytrach:

- ddiweddaru gwybodaeth a gyflwynwyd yn rhan o'r broses o werthuso'u perfformiad yn flynyddol.
- darparu gwybodaeth ymarferol a fydd yn ofynnol i gynnal yr adolygiad.

Ymwneud mwy â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr

Diwygiwyd y broses adolygu er mwyn rhoi mwy o gyfle i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr fynegi barn a disgrifio'u profiadau. Dyma enghreifftiau o'r newidiadau a gyflwynwyd:

- ail-lunio'r holiadur ar gyfer yr arolwg;
- cyflwyno rôl yr asesydd lleyg gyda'r briff penodol o sicrhau bod barn a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael eu cynrychioli'n briodol;
- sefydlu grŵp cyfeirio ar gyfer defnyddwyr a gofalwyr yn ystod y cydadolygiad ar ei hyd, gan ganiatáu deialog cyson ar hyd yr adeg.

Rhoi mwy o gydnabyddiaeth i gyfraniad gweithio ar y cyd a gweithio mewn partneriaeth wrth ddarparu gofal cymdeithasol

Bydd cydadolygiadau yn rhoi mwy o bwys ar werthuso'r berthynas rhwng gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill megis iechyd, addysg a thai o safbwynt gweithio ar y cyd a chynnig darpariaeth integredig. Newidiwyd y dulliau gweithredu er mwyn galluogi'r tîm cydadolygu i edrych ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wrth iddynt fynd rhagddynt ar hyd y llwybrau gofal a hefyd y cysylltiadau rhwng asiantaethau a chyrff allweddol.

Er enghraifft, mae'r materion hyn bellach yn rhan annatod ac amlwg o'r fframwaith a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth, llunio dyfarniadau a chyflwyno canfyddiadau. Cynhelir arolwg ymhlith y partneriaid a'r rhanddeiliaid gan ddefnyddio holiadur ysgrifenedig. Mae'r arolwg a gynhelir ymhlith staff y gwasanaethau cymdeithasol yn eu holi'n benodol am waith partneriaeth. Bydd dadansoddiad o ffeiliau achos a chyfweliadau â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr unigol yn cael eu defnyddio er mwyn edrych ar y llwybrau gofal ym mhob un o'r sectorau perthnasol sy'n rhan o'r gwasanaeth a ddarperir.

Bydd disgwyl i AGCC, SAC a chydweithwyr o arolygiaethau ac asiantaethau gwella eraill gyfrannu fwyfwy at y cydadolygiad drwy gydol y broses. Gall hyn gynnwys cyfrannu'n ffurfiol at elfennau o'r rhaglen gwaith maes. Mae'n debyg y gwelir hyd yn oed mwy o ymgais i gydgysylltu ac uno'r gwaith a wneir gan y cyrff hyn mewn awdurdodau lleol yn ystod ail gylch y cydadolygiadau.

Integreiddio'n well â fframweithiau perfformiad ehangach

Bydd y modd y caiff y timau eu staffio, y defnydd ehangach a wneir o wybodaeth o ffynonellau sydd eisoes yn bod a'r strwythur ar gyfer y dystiolaeth a'r canfyddiadau yn golygu y gellir integreiddio'n well â fframweithiau ehangach Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a'r gwerthusiadau perfformiad a wneir gan AGCC. Bydd canfyddiadau'r adolygiadau yn cael eu bwydo'n uniongyrchol i'r fframweithiau hyn.

Mae'r Llawlyfr yn disgrifio'n fwy manwl sut y mae pob cam o'r broses o gynnal cydadolygiad (yr adolygiad eang, yr adolygiad manwl a'r ôl-weithredu) yn cysylltu ag elfennau eraill o'r Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella - megis asesiad risg a chynllun gwella'r awdurdod lleol, y cynllun rheoleiddio a'r trefniadau craffu eraill. Ym mhob awdurdod lleol, bydd gan arolygydd cyswllt AGCC a rheolwr perthynas SAC ran bwysig i'w chwarae yn ystod y broses adolygu drwy helpu i fabwysiadu dull integredig o weithio. Unwaith eto, mae'r swyddogaethau hyn wedi'u diffinio yn y Llawlyfr.

Materion yn ymwneud â chydraddoldeb

Bydd cydadolygiadau yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau a fabwysiadwyd gan AGCC a SAC o ran defnyddio'r Gymraeg. Bydd ieithoedd a ffurfiau eraill yn cael eu defnyddio lle bo'n briodol.

Wrth gynnal y cydadolygiad, bydd angen bod yn ystyriol o anghenion grwpiau lleiafrifol a grwpiau anodd eu cyrraedd. Rhoddir mwy o bwyslais ar roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod y cydadolygiad yn cael ei gynnal o fewn yr awdurdod lleol ac ar roi cyfle i bobl wneud sylwadau yn uniongyrchol i'r tîm cydadolygu drwy ddefnyddio e-bost, y wefan a chyfleusterau postio. Bydd AGCC a SAC yn ymgynghori â'r comisiynau cydraddoldeb, cyrff gwirfoddol ac eraill er mwyn sicrhau bod yr adolygiadau mor gynhwysol ag y bo modd.

Casgliad

Bydd llawer o'r newidiadau hyn yn cyfrannu at y nodau cyffredinol sef:

- lleihau baich arolygiadau, lle bo modd;
- sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl rhwng yr angen am fabwysiadu dull cynhwysfawr ac unffurf o weithredu a'r angen am ymateb yn gymesur ac yn hyblyg ar sail asesiadau a wnaed ar sail tystiolaeth dda a dadansoddiad o'r risg

2.3 Datblygiadau pellach

Bwriad y fframwaith cyffredinol ar gyfer cydadolygiadau yw cynnig sylfaen gadarn ar gyfer ail gylch y cydadolygiadau i'w cynnal yng Nghymru. Bydd y broses a'r dulliau gweithredu yn sicr o esblygu fodd bynnag yn unol â phrofiad ac arferion.

Bydd nifer o ffactorau yn ysgogiad i'r newidiadau, gan gynnwys:

- sylwadau gan awdurdodau lleol, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, y bwrdd cynghori ac eraill;
- datblygiadau ehangach ym maes gofal iechyd ac o ran y llywodraeth;
- y disgwyliadau o ran cael trefniadau mwy hyblyg wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau ym meysydd gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg;
- mwy o integreiddio gydag arolygiaethau, asiantaethau gwella perfformiad a rheoleiddwyr eraill;
- gweithio oddi mewn i AGCC a SAC er mwyn gwella'r prosesau adolygu;
- creu gwell fframweithiau o ran rheoli perfformiad, gan gynnwys dangosyddion perfformiad mwy trylwyr;
- cyfleoedd newydd yn sgil creu Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005.

Caiff rhanddeiliaid wybod am y newidiadau hyn pan fydd yr arweiniad i gydadolygiadau a'r llawlyfr yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd.

3 Y FFRAMWAITH ADOLYGU

3.1 Egwyddorion, gwerthoedd a chod ymddygiad

Yn ogystal â'r egwyddorion cyffredinol a bennwyd gan y llywodraeth ar gyfer arolygu gwasanaethau cyhoeddus (gweler tudalen 10), mae'r rhaglen o gydadolygiadau yn cael ei hategu gan nifer o werthoedd craidd:

- *canolbwyntio ar ddefnyddwyr y gwasanaethau ym mhopeth a wnawn* - sicrhau mai prif ganolbwynt yr adolygiad yw pa mor dda y mae unigolion yn cael eu gwasanaethu gan eu hawdurdod, casglu tystiolaeth yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, defnyddio'r dystiolaeth honno ar gyfer cyfweliadau gyda rheolwyr a rhanddeiliaid;
- *gweithio mewn partneriaeth* - rhwng y cyrff noddi, gydag awdurdodau fesul un a chyda'i gilydd, gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, a gyda phobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol;
- *cynnwys yr holl randdeiliaid mewn gwasanaethau cymdeithasol* - eu cynnwys mewn adolygiadau a rhannu'r dysgu ar wahanol adeg yn ystod yr adolygiad;
- *bod yn seiliedig ar dystiolaeth* - sicrhau bod pob canfyddiad a phob barn wedi'u seilio ar dystiolaeth am weithgareddau'r awdurdodau, gan wahaniaethu'n glir rhwng adrodd ffeithiau a mynegi barn, clustnodi a rhannu arfer da;
- *gweithredu gyda chysondeb* - diffinio safonau cyffredin ar gyfer ein holl waith ar gydadolygiadau, gan geisio cymhwyso egwyddorion arfer gorau yn y rhaglen o gydadolygiadau ei hun;
- *edrych ar gyfrifoldebau corfforaethol* - archwilio perfformiad yr awdurdod lleol cyfan, gan gynnwys swyddogaethau eraill sy'n cyfrannu at ofal cymdeithasol, yn ogystal â gwaith y rhai sydd â chyfrifoldebau arbennig ym maes gwasanaethau cymdeithasol;
- *annog datblygiad* - barnu'r perfformiad cyfredol o fewn cyd-destun hanesyddol priodol, gan bwyso a mesur potensial y dyfodol fel bod gan bob awdurdod agenda glir i wella perfformiad a gwerthfawrogiad o'u gallu i gyflawni gwelliannau, amlygu arfer da, dilysu hunan-asesiad, hyrwyddo arloesedd;
- *bod yn agored am ein gwaith* - cyhoeddi ein methodoleg ac adroddiadau am awdurdodau unigol, gan gyfrannu at atebolrwydd cyhoeddus;
- *herio, lle bo angen* - delio'n ddiduedd gyda'r holl awdurdodau lleol ac wrth ffurfio barn peidio â chyfaddawdu gyda gwasanaethau sy'n methu.

Mae'r cod ymddygiad ar gydadolygiadau, sy'n pennu sut y dylai aelodau'r tîm cydadolygu weithredu, yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn. Mae'r cod ymddygiad hefyd yn fframwaith fel y gellir gwerthuso ymddygiad unigolyn yn deg ac yn fanwl. Gellir gweld y cod yn y Llawlyfr Cydadolygiadau.

Mae'r tîm cydadolygu yn rhoi pwyslais arbennig ar yr angen i drin pawb gyda pharch a chwrteisi ni waeth beth yw eu hiaith, crefydd, gwreiddiau ethnig, anabledd, tueddfryd rhywiol neu eu rhyw.

3.2 Trefniadau atebolrwydd, rheoli a llywodraethu

Menter ar y cyd rhwng AGCC a SAC yw cydadolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol Cymru. Cynhaliwyd y rownd gyntaf o gydadolygiadau, a ddaeth i ben yn 2003-04, gan dîm arbennig a gomisiynwyd gan yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol (Lloegr), AGCC a'r Comisiwn Archwilio. Penderfynodd Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylid cynnal ail rownd o adolygiadau yng Nghymru, i'w cynnal yn uniongyrchol gan AGCC gyda chydweithrediad SAC.

Felly, er mwyn cyflawni'r rhaglen, mae AGCC a SAC wedi ffurfio partneriaeth gyfartal. Er mwyn medru cydweithio orau bosibl, mae'n hanfodol bod y ddau gorff yn chwarae rhan gyfartal. Ond yn ôl pob tebyg fe fydd yn fwy effeithiol bod rhai tasgau yn cael eu gwneud gan y naill gorff neu'r llall yn unig, am resymau ymarferol. Mae angen i gydadolygiadau gadw hunaniaeth amlwg a gweithio ar yr un pryd mewn cyfundrefn integredig o arolygu, archwilio a gwerthuso perfformiad. Cynlluniwyd y fframwaith cyffredinol o gydadolygiadau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn manteisio'n llawn ar yr adnoddau a'r sgiliau arbenigol sydd ar gael i'r ddau gorff ac fel y gallant fod yn dryloyw ac yn glir o ran y trefniadau atebolrwydd, llywodraethu a rheoli.

Y Bwrdd Cynghori

Gofynnir i'r Aelodau gytuno i greu bwrdd cynghori (wedi'i sefydlu yn ôl pob tebyg yn gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad), gyda'i aelodaeth yn cynnwys rhanddeiliaid sydd â phwyslais cryf ar fuddiannau defnyddwyr-gofalwyr. Caiff y Bwrdd ei gadeirio'n annibynnol, a bydd uwch swyddogion o AGCC a SAC yn bresennol. Bydd y Bwrdd yn cynghori AGCC a SAC ar gydadolygiadau ac adolygiadau eraill o'r gwasanaethau cymdeithasol.

Cyfarfodydd rheolwyr

Bydd Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru SAC yn cyfarfod bob blwyddyn i fonitro'r ffordd y caiff y rhaglen o gydadolygiadau ei rhoi ar waith, i ystyried adborth gan y prif randdeiliaid ac i ystyried pa newidiadau y gall fod angen eu gwneud i sicrhau y gellir cyflawni'r nodau cyffredinol.

Rheolaeth weithredol

Bydd rheolwr yn cael ei enwebu o bob corff i fod â chyfrifoldeb gweithredol am gydadolygiadau. Byddant yn cytuno ar:

- y trefniadau ar gyfer parhau i ddatblygu cydadolygiadau ac am oruchwylio'r ffordd y maent yn cael eu cynnal (drwy'r grŵp llywio yn y flwyddyn gyntaf o leiaf);
- trefnu adolygiadau yn unol â'r rhaglen y cytunwyd arni ar y cyd;
- trefnu staff ac adnoddau eraill;
- trefniadau am sicrwydd ansawdd, safoni, datrys anghydfodau a delio â chwynion;
- trefniadau ar gyfer cymeradwyo'r adroddiadau'n swyddogol a'u cyhoeddi.

Adolygwyr arweiniol

Yr adolygydd arweiniol a enwebwyd ar gyfer pob adolygiad fydd yn bennaf gyfrifol am gynnal yr adolygiad (yn unol â'r fethodoleg y cytunwyd arni). Bydd hefyd yn gyfrifol am ysgrifennu'r adroddiad am yr adolygiad yn unol â'r trefniadau i sicrhau ansawdd, safoni ac i'w gymeradwyo'n swyddogol.

Adroddiadau gwleidyddol

Bydd AGCC, drwy ymgynghori gyda SAC, yn paratoi brîff drafft ar gyfer y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch pob adroddiad cydadolygu a'r ffordd y cafodd ei drin. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw ddatganiad gan y Cynulliad i'r wasg ac unrhyw lythyr y bydd y Gweinidog am ei anfon i'r awdurdod lleol.

Os bydd cydadolygiad yn codi pryderon difrifol am wasanaethau cymdeithasol mewn awdurdod lleol, bydd AGCC yn rhoi gwybod i'r Gweinidog am hynny ac yn delio â'r mater yn unol â'r drefn y cytunwyd arni rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Bydd AGCC, drwy ymgynghori â SAC, yn hysbysu'r Gweinidog a Phwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad fel y bo'n briodol am faterion cyffredinol sy'n ymwneud â chydadolygiadau yng Nghymru.

3.3 Trefniadau sicrhau ansawdd

Mae systemau a phrosesau wedi'u sefydlu i sicrhau bod y rhaglen o gydadolygiadau a'r adolygiadau eu hunain yn cael eu cyflawni'n deg a gyda chysondeb.

Rolau a chyfrifoldebau

Y rheolwyr arweiniol yn AGCC a SAC sy'n gyfrifol am reoli'r rhaglen o gydadolygiadau yn weithredol ac am gymeradwyo'r adroddiadau yn ffurfiol ar ran eu cyrff perthnasol.

Gan yr adolygydd arweiniol y mae'r cyfrifoldeb pennaf am gynnal yr adolygiad ac am ysgrifennu'r adroddiad. Mae'r adolygydd arweiniol yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw ar ran AGCC a SAC, yn unol â'r canllawiau a'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer sicrhau ansawdd, safoni a chymeradwyo'n swyddogol.

Mae aelodau eraill y tîm adolygu yn rhannu'r cyfrifoldeb am gynnal yr adolygiad ac am ei ganfyddiadau. Maent yn gweithio dan gyfarwyddyd beunyddiol yr adolygydd arweiniol. Mae ganddynt gyfrifoldeb i dynnu sylw'r adolygydd arweiniol at unrhyw faterion sy'n peri pryder neu at unrhyw anghytundeb ac i dynnu sylw'r rheolwyr arweiniol at unrhyw faterion nad ydynt, yn eu barn hwy, wedi cael eu datrys yn briodol.

Mae aseswyr lleyg yn rhannu cyfrifoldeb y tîm adolygu. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i dynnu sylw'r rheolwyr arweiniol neu Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) at unrhyw faterion sydd yn eu barn hwy heb gael eu datrys yn briodol.

Bydd safonwyr allanol yn rhoi cyngor ynghylch sicrhau ansawdd, ac yn enwedig ar farn y tîm adolygu. Maent yn gyfrifol am dynnu sylw'r adolygydd arweiniol at unrhyw gwestiynau a all fod ganddynt am ganfyddiadau'r adolygiad, y farn a fynegwyd a'r adroddiad ac am roi gwybod i'r rheolwyr arweiniol am unrhyw anghytundebau na ellir eu datrys.

Unplygrwydd y broses a'r fethodoleg

Rhaid i'r adolygwyr gadw at y broses a'r fethodoleg y cytunwyd arnynt. Nid ydynt i wyro oddi wrthynt yn sylweddol mewn unrhyw ffordd heb ganiatâd penodol y rheolwyr arweiniol.

Cod Ymddygiad

Rhaid i'r holl adolygwyr, yr aseswyr lleyg, y rheolwyr a'r staff cynnal gadw at y codau ymddygiad y cytunwyd arnynt a chadw at godau ymddygiad eu cyrff a'u galwedigaethau perthnasol.

Gweithio mewn tîm

Mae'r holl adolygwyr (gan gynnwys y rhai hynny nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan AGCC neu SAC) yn cael eu penodi drwy brosesau recriwtio agored, ar sail manyleb person berthnasol. Byddant wedi cael profiad helaeth o weithio ar lefel uchel o gyfrifoldeb ym maes gofal cymdeithasol, llywodraeth leol, rheoli, archwilio neu arolygu. Bydd yr holl adolygwyr yn dilyn proses gyffredin o gynefino a byddant yn cael goruchwyliaeth reolaidd. Bydd y sawl a benodir yn brif adolygydd eisoes wedi cael profiad o gydadolygiadau.

Dylai'r adolygydd arweiniol sicrhau bod y penderfyniadau am y ffordd y cynhelir yr adolygiad, ei ganfyddiadau a'r farn a fynegir yn adlewychu safbwynt a ystyriwyd gan y tîm adolygu cyfan. Os na ellir dod i gytundeb, bydd yr adolygydd arweiniol yn penderfynu beth orau sy'n cynrychioli safbwynt y tîm.

Safoni

Bydd y rheolwyr arweiniol yn penodi safonwyr ar gyfer rhai o gamau'r adolygiad, sef:

- y cyfarfod i gynllunio'r adolygu
- y cyfarfod interim i ddadansoddi / asesu risg
- y cyfarfod i wneud y dadansoddiad terfynol.

Y safonwr fydd yn cadeirio'r cyfarfodydd. Bydd y safonwyr yn rhoi cyngor i'r adolygydd arweiniol a bydd, fel y bo'n briodol, yn herio'r canfyddiadau a'r farn a fynegir. Yn fwyaf arbennig, dylai'r safonwr geisio gwneud yn siwr:

- bod penderfyniadau a barn y tîm adolygu yn gydnaws â'r canllawiau y cytunwyd arnynt a'r meini prawf a gyhoeddwyd a'u bod yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael;
- bod safbwyntiau'r tîm cyfan yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn briodol;
- bod modd i benderfyniadau a barn y tîm gael eu hegluro'n rhesymol i'r sawl a all eu cwestiynu a bod modd eu hamddiffyn yn briodol pan fydd rhywun yn eu herio.

Ar ddiwedd y cyfarfodydd gyda safonwr, bydd yr adolygydd arweiniol a'r safonwr yn llenwi ac yn llofnodi ffurflen sy'n dangos y penderfyniadau a wnaed ac unrhyw anghytundebau na lwyddwyd i'w datrys. Rhaid i'r adolygydd arweiniol a'r safonwr roi gwybod i'r rheolwyr arweiniol am unrhyw anghytundebau na chawsant eu datrys.

Datrys anghytundeb

Bydd y rheolwyr arweiniol yn cyfarfod i drafod a datrys unrhyw anghytundebau. Byddant yn cymryd barn yr adolygydd arweiniol a'r safonwr i ystyriaeth, a gallant ddewis cyfarfod â hwy.

Paratoi'r adroddiad

Bydd yr adolygydd arweiniol yn paratoi adroddiad drafft. Yna, caiff y drafft ei is-olygu i gywiro unrhyw wallau ac i sicrhau cysondeb o ran arddull. Bydd y rheolwyr arweiniol yn cymeradwyo'r adroddiadau yn ffurfiol cyn eu cyhoeddi.

Adborth gan awdurdodau lleol

Mae AGCC a SAC yn rhoi cryn bwys ar gael adborth a sylwadau. Mae gan y broses adolygu nifer o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i roi adborth ac i drafod y modd y cafodd yr adolygiad ei gynnal a chynnwys yr adolygiad gyda rheolwyr, staff a'r aelodau etholedig. Ar ddiwedd y broses, gwahoddir adborth am bob adolygiad a gwblhawyd. Yn ogystal â'r Bwrdd Ymgynghori (a ddisgrifir

yn adran 3.2 o'r llawlyfr hwn), bydd AGCC a SAC yn cysylltu'n rheolaidd â rhwydwaith eang o randdeiliaid. Mae cysylltiadau wedi'u meithrin gyda chyrff cynrychiadol, gan gynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

3.4 Barnu perfformiad

Dylai pob cydadolygiad arwain at farn glir am berfformiad, ag iddi dystiolaeth gadarn. Dylai'r farn honno fod wedi'i hystyried yn ofalus, ac yn un y gall ystod eang o randdeiliaid - lleol a chenedlaethol - ei deall a gweithredu arni.

Bydd pob un o'r rhanddeiliad hyn yn disgwyl, a hynny'n ddigon priodol, bod y farn derfynol yn gyson, wedi'i phrofi i'r eithaf ac yn cael ei dangos yn rhesymegol yn yr adroddiad a roddir i'r awdurdod lleol.

Sut y caiff y farn ei llunio

Nid arolwg o wasanaethau penodol nac archwiliad o arfer unigolion yw'r cydadolygiad. Ei nod yw cael darlun cyffredinol o berfformiad yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol cyfan. Gwneir hyn drwy astudio 'tafell' ar draws a thrwy'r sefydliad, gan gysylltu profiad y defnyddwyr a'r gofalwyr gyda pholisïau a phenderfyniadau cynghorwyr ac uwch reolwyr. Mae'n archwilio'r asesiad y mae'r awdurdod ei hun wedi'i wneud ac yn ei gymharu gyda'r profiad go-iawn ar lawr gwlad. Bydd adolygwyr yn trafod gyda staff ar bob lefel a chyda staff allweddol o'r prif sefydliadau sy'n bartneriaid i'r cyngor.

Mae'r adolygiad yn defnyddio ystod o dystiolaeth ansoddol a meintiol gan geisio egluro'r gwahaniaethau a'r bylchau yn yr hanes sydd ganddynt i'w ddweud. Mae'r 'dafell' hon yn cyd-fynd â'r gwerthusiad a'r craffu a wnaed gan eraill, megis AGCC a SAC, ac mae hefyd yn ategu prosesau mewnol y corff o ran rheoli ei berfformiad. Diwedd y broses yw ffurfio barn gyffredinol sy'n llawn gwybodaeth, sy'n un y gall y cyhoedd ei deall a'i chymharu gydag awdurdodau eraill.

Ar bob cam o'r adolygiad, bydd y tîm yn mynegi barn dros dro am berfformiad yr awdurdod. Bydd y farn honno yn datblygu ac yn esblygu wrth i fwy o dystiolaeth gael ei chasglu a'i dadansoddi. Bydd ambell farn yn cael ei rhannu ar gyfnodau allweddol yn y broses, er mwyn rhoi ffocws i waith y tîm ac i roi cyfle i'r awdurdod lleol drafod y materion gyda hwy a rhoi tystiolaeth ychwanegol.

Pan fydd yr holl dystiolaeth wedi'i chasglu ac wedi'i hasesu, bydd yn cael ei herio'n drwyadl gan y tîm cydadolygu a chan safonwyr profiadol cyn i'r casgliadau terfynol gael eu rhannu gyda'r awdurdod lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Diben hyn yw sicrhau bod unrhyw farn a fynegir:

- yn seiliedig ar yr ystod lawn o dystiolaeth ansoddol a meintiol;
- yn deillio o ddefnyddio methodoleg y cydadolygiad yn gywir;
- yn cael eu profi i'r eithaf yn erbyn meini prawf hysbys;
- yn bwrpasol, yn deg, yn gyson, yn seiliedig ar wybodaeth a heb ragfarn o unrhyw fath.

Mynegi barn a sicrhau ansawdd

Mae'r broses adolygu fel cyfanbeth wedi'i llunio i sicrhau bod y farn a fynegir gan y tîm yn cyrraedd y safonau hyn. At hynny, mae dulliau penodol o ddiogelu ansawdd, sef:

- bod y broses yn cael ei rheoli gan ddau gorff atebol a benodwyd yn briodol, sef AGCC a SAC;
- bod y farn a fynegir yn cael ei safoni'n rheolaidd gan uwch reolwyr o fewn y cyrff hyn;

- bod meini prawf tryloyw ar gyfer ffurfio barn;
- bod y farn yn cael ei mynegi gan adolygwyr sy'n atebol, sydd â'r profiad perthnasol ac sy'n cwrdd â'r safonau cymhwysedd sy'n ofynnol gan AGCC a SAC;
- bod timau yn cael eu defnyddio sy'n cynnwys adolygwyr ac aseswyr lleyg sydd â'r sgiliau a'r safbwyntiau ategol;
- bod methodoleg gynhwysfawr yn cael ei defnyddio a honno'n cael ei rhoi ar waith yn gyson ac yn seiliedig ar arfer gorau;
- bod triongl o wybodaeth yn cael ei chasglu oddi wrth ystod eang o ffynonellau, drwy ddefnyddio gwahanol ddulliau;
- proses o apelio sy'n deg ac awdurdodol.

Y farn gyffredinol

Mae'r farn gyffredinol yn golygu dod i gasgliadau ynghylch dau ddimensiwn allweddol o'r perfformiad:

- *Pa mor dda yw'r gwasanaethau?*
- *I ba raddau y mae'r awdurdod mewn sefyllfa i gynnal a gwella'i wasanaethau?*

Mae'r naill ddimensiwn a'r llall yn cael eu mesur ar sail pedwar pwynt.

Pa mor dda yw'r gwasanaethau	I ba raddau y mae'r awdurdod mewn sefyllfa i gynnal a gwella'i wasanaethau?
Gwael	Mewn sefyllfa heb fod yn dda
Anghyson	Mewn sefyllfa ansicr
Da yn bennaf	Mewn sefyllfa dda yn bennaf
Ardderchog	Mewn sefyllfa gryf

Mae'r farn yn cael ei mynegi drwy ddangos sefyllfa'r awdurdod ar fatrics perfformiad.

Ffigur 1 Matrics Perfformiad y Cydadolygiad



Mae'r matrics yn cyflwyno'r casgliadau cyffredinol hyn yn gyson ac yn glir. Mae'n gyfle i bobl gymharu eu cyngor gydag eraill ac mae'n cyfrannu at atebolrwydd gwleidyddol.

Y sail dros ffurfio barn

Mae pob dimeniswn yn cynnwys saith maes.

Pa mor dda yw'r gwasanaethau?

Mynediad at wasanaethau
Asesu
Rheoli ac adolygu gofal
Amrediad y gwasanaethau a ddarperir
Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir
Trefniadau i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed
Llwyddiant i hybu annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol

I ba raddau y mae'r awdurdod mewn sefyllfa i gynnal a gwella'i berfformiad?

Gweithlu
Rheoli perfformiad
Cynllunio a phartneriaethau
Comisiynu a chontractio
Adnoddau
Arweinyddiaeth a diwylliant
Cefnogaeth a chraffu corfforaethol a gwleidyddol

Mae'r meysydd hyn yn cael eu hadlewyrchu ar bob cam o'r adolygiad ac maent yn strwythur cyffredin ar gyfer casglu tystiolaeth, ffurfio barn ac ysgrifennu adroddiadau.

Mae dogfen yn y Llawlyfr Cydadolygiadau (Adran 1.8) sy'n pennu, ar gyfer pob un or 14 maes:

- diffiniad o'r hyn sy'n cael ei fesur;
- meysydd posibl i'w harchwilio;
- y sail ar gyfer ffurfio barn.

Ffurfio barn

Bydd y tîm cydadolygu yn ffurfio barn am bob un o'r meysydd, gan ddefnyddio'r tabl o raddfeydd ar gyfer pob maes a chymhwyso'r sail berthnasol ar gyfer ffurfio barn. Er enghraifft, gall mynediad **at** wasanaethau gael ei raddio'n wael, anghyson, da yn bennaf neu ardderchog. Gall y **gweithlu** gael ei raddio mewn sefyllfa heb fod yn dda (i gynnal a gwella'r gwasanaethau), mewn sefyllfa ansicr, mewn sefyllfa dda, neu mewn sefyllfa gryg. Mae'r barnau unigol hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

Mae'r farn gyffredinol ym mhob dimensiwn (ac felly'r lle ar y matrics) yn cael ei bennu yn y lle cyntaf drwy gasglu'r gwahanol farnau ym mhob un o'r saith maes perthnasol ar gyfer y dimensiwn hwnnw.

Serch hynny, gellir defnyddio ystod o ffactorau i safoni'r modd y defnyddir y system raddio i ffurfio'r farn gyffredinol. Er enghraifft, gellir rhoi mwy o bwys ar rai o'r pedwar maes ar ddeg, er mwyn sicrhau bod y farn am y ddau ddimensiwn yn adlewyrchu'n briodol naill ai ffactorau sy'n hanfodol i lwyddiant (fel systemau effeithiol i ddiogelu pobl agored i niwed) neu bryderon difrifol (fel gwendidau systemig neu wendidau sydd wedi ymwreiddio yn un o'r prif feysydd gwasanaeth nad eir i'r afael â hwy).

3.5 Datrys anghydfodau

Cwmpas

Yn yr adran hon mae gweithdrefn ar gyfer delio ag achosion lle mae awdurdod lleol yn herio un neu fwy o ganfyddiadau neu farnau'r adolygiad.

Mae'r weithdrefn ar gyfer delio â chwynion am sut y cynhaliwyd adolygiad neu am adolygydd mewn papur ar wahân. Weithiau bydd achosion lle mae her i ganfyddiad neu farn yn seiliedig yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar gŵyn am ymddygiad. Mewn achos o'r fath, rhaid i'r ddwy weithdrefn gael eu rhoi ar waith ar y cyd.

Y broses arferol

Bydd yr adolygydd arweiniol yn paratoi'r adroddiad a fydd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad ac yn amodol ar safoni mewnol ac allanol ac is-olygu. Yna bydd y cydgysylltydd cymorth adolygu yn anfon yr adroddiad drafft i'r awdurdod lleol (prif weithredwr a chyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol) i gael eglurhad a sylwadau ar faterion y gall fod angen eu cywiro. Gofynnir i'r awdurdod lleol gyflwyno sylwadau ysgrifenedig cyn pen cyfnod penodol.

Bydd yr adolygydd arweiniol yn ystyried unrhyw sylwadau a bydd yn:

- cywiro unrhyw wallau ffeithiol;
- darparu unrhyw eglurhad angenrheidiol;
- ceisio datrys unrhyw faterion eraill heb newid canfyddiadau'r tîm fel y cytunwyd arnynt ac fel y'u safonwyd.

Fel y bo'n briodol, gall yr adolygydd arweiniol ofyn am fwy o dystiolaeth gan yr awdurdod lleol neu drafod ymhellach gyda'r awdurdod lleol sylwedd y pwyntiau a godwyd. Hefyd, gall yr adolygydd arweiniol, fel y bo'n briodol, drafod gyda'r tîm adolygu a'r safonwr a'r rheolwyr arweiniol unrhyw bwynt a godwyd gan yr awdurdod lleol a all gyfiawnhau newid y canfyddiadau.

Ni all yr adolygydd arweiniol wneud unrhyw newid sylweddol i'r canfyddiadau neu i'r farn a ffurfiwyd heb gytundeb y safonwr neu'r rheolwyr arweiniol.

Bydd yr adolygydd arweiniol yn hysbysu'r awdurdod lleol am unrhyw newidiadau a wnaed i'r adroddiad yng ngoleuni sylwadau'r awdurdod lleol.

Herio'r ffarn a ffurfiwyd

Os bydd yr awdurdod lleol yn herio unrhyw rai o farnau swyddogol yr adolygiad (o dan bob maes neu'r tabl sy'n cynnwys y farn gyffredinol), bydd yr adolygydd arweiniol yn egluro wrth yr awdurdod lleol ar ba sail y cafodd y farn ei ffurfio a bydd yn ystyried y rhesymau a roddir gan yr

awdurdod lleol dros newid y farn honno. Os bydd yr adolygydd arweiniol yn ystyried y dylai'r farn sefyll dylai roi gwybod i'r awdurdod lleol am hynny.

Os bydd yr adolygydd arweiniol yn credu y gallai fod cyfiawnhad dros newid dylai drafod hyn gyda'r safonwr. Os bydd yr adolygydd arweiniol a'r safonwr (ar ôl unrhyw drafodaeth briodol gydag aelodau eraill y tîm adolygu) yn cytuno bod cyfiawnhad dros y newid, bydd yr adolygydd arweiniol yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol.

Herio ymhellach

Os yw'r awdurdod lleol yn dal i wrthod canfyddiadau'r adolygiad neu'r farn a fynegir, dylid ei wahodd i nodi'n ysgrifenedig ar ba sail y mae'n anghytuno. Bydd y rheolwyr allweddol yn ystyried y rhesymau hyn ac yn gwneud penderfyniad terfynol. Bydd y rheolwyr allweddol yn rhoi gwybod i'r awdurdod am y penderfyniad a'r rhesymau drosto.

3.6 Rolau a chyfrifoldebau'r tîm cydadolygu

Mae'r tîm cydadolygu yn cynnwys adolygydd arweiniol, ail adolygydd ac asesydd lleyg. Ar wahanol gamau o'r broses, bydd y tîm hefyd yn cynnwys aelodau eraill i wneud tasgau penodol. Y nod yw ceisio cael cydbwysedd o arbenigedd mewn gwasanaethau cymdeithasol, arolygu, rheoli adnoddau a llywodraethu corfforaethol.

Mae'r holl adolygwyr yn atebol am y gwaith a wneir ganddynt. Disgwylir iddynt gadw at:

- y cod ymddygiad;
- y broses y cytunwyd arni a'r fethodoleg a bennwyd ar gyfer cynnal cydadolygiadau.

Rheolwyr arweiniol AGCC a SAC fydd yn cytuno ar gyfansoddiad y tîm cydadolygu ar gyfer awdurdod lleol penodol. Byddant yn ystyried:

- yr angen am sicrhau cydbwysedd o brofiad, sgiliau a gwybodaeth;
- gofynion ieithyddol;
- ystyriaethau rhyw;
- effeithiolrwydd y tîm.

Bydd timau Sir Fôn, Gwynedd, Conwy, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn cynnwys adolygydd Cymraeg ei iaith a lle bo modd asesydd lleyg Cymraeg ei iaith. Os oes modd, bydd o leiaf un aelod o'r tîm yn medru'r Gymraeg mewn awdurdod lleol arall lle mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

Y prif gyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol yw'r **adolygydd arweiniol**. Bydd y person hwn yn goruchwylio'r broses o gynllunio manylion yr adolygiad a bydd yn cynnal yr adolygiad drwyddo draw hyd ddiwedd y cyfnod ôl-weithredu. Mae'r adolygydd arweiniol yn gyfrifol am gytuno ar yr amserlen fanwl gyda'r awdurdod, gan godi unrhyw faterion sy'n peri pryder a drafftio'r adroddiad.

Mae'r **ail adolygydd** yn helpu'r adolygydd arweiniol a bydd ganddo lwyth gwaith tebyg o fewn yr awdurdod, gan gynnwys cyfweliadau ac ymweliadau. Mae iddynt ran gyfartal o ran profi tystiolaeth ac o ran ffurfio'r farn gyffredinol.

Caiff y tîm adolygu ei helpu gan gydweithwyr o AGCC, SAC neu gyrff rheoleiddio/gwella eraill ar gyfer agweddau penodol o'r adolygiad. Bydd y cyfryw drefniadau yn cael eu trafod ymlaen llaw gyda'r awdurdod ac yn cael eu cytuno yn y cyfarfod rhagarweiniol gyda'r rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol neu wrth gynllunio cyfarfodydd ar gyfer y brif raglen gwaith maes.

Mae cynnwys **aseswyr lleyg** yn helpu i ddwyn safbwynt gwahanol i waith y timau adolygu drwy gynrychioli safbwyntiau'r bobl hynny sy'n defnyddio gwasanaethau a'r cyhoedd yn gyffredinol. Maent yn dod â mwy o annibyniaeth i weithgareddau adolygu AGCC a SAC, ac maent yn helpu i sicrhau eu bod yn atebol i'r cyhoedd ac yn arfer tegwch. Mae aseswyr lleyg yn ategu'r gwaith a wneir gan arolygwyr proffesiynol, yn rhannol drwy hoelio sylw ar brofiadau a buddiannau defnyddwyr y gwasanaethau a gofalwyr yn eu perthynas â'r gwasanaethau cymdeithasol a'r partner-sefydliadau.

Mae'r **rheolwyr arweiniol** a enwebwyd o AGCC neu SAC yn gyfrifol am oruchwylio adolygiadau ac am gadw llygad ar adolygwyr unigol. Maent yn sicrhau bod y tîm cydadolygu yn cyflawni'r tasgau mewn pryd gan gadw at y safonau y cytunwyd arnynt. Maent yn monitro ansawdd gwaith y tîm ac yn cymeradwyo'r adroddiad yn ffurfiol.

Bydd **safonwyr allanol** yn rhoi cyngor ynghylch sicrhau ansawdd, ac yn enwedig ar farn y tîm adolygu. Maent yn gyfrifol am dynnu sylw'r adolygydd arweiniol at unrhyw gwestiynau a all fod ganddynt am ganfyddiadau'r adolygiad, y farn a fynegwyd a'r adroddiad ac am roi gwybod i'r rheolwyr allweddol am unrhyw anghytundebau na ellir eu datrys.

Mae'r **cydgysylltwyr cymorth adolygu** yn gyfrifol am drefnu'r adolygiad, cyfathrebu â'r awdurdod, trefnu'r prif gyfarfodydd allweddol a holi hynt cyffredinol yr adolygiad. Hwy sy'n rheoli'r gwaith o olygu a pharatoi'r adroddiad. Byddant yn trefnu bod copïau drafft a phroflenni yn cael eu hanfon i'r awdurdod a byddant yn cydgysylltu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r adroddiad terfynol. Byddant hefyd yn trefnu'r cyfarfodydd trosglwyddo ac ôl-weithredu.

Mae'r **swyddog gwybodaeth** yn AGCC yn gyfrifol am gasglu'r gwahanol ffynonellau data sydd ar gael ar gyfer pob adolygiad, gan brosesu holiaduron sydd wedi'u dychwelyd, a pharatoi'r rhannau hynny o'r adroddiad sy'n dibynnu ar wybodaeth ystadegol. Bydd y swyddog gwybodaeth yn delio ag ymholiadau am yr holiaduron, yn cytuno ar ddata am berfformiad gyda'r awdurdod lleol (gan gynnwys data am gyllid a gweithgareddau) a bydd yn sicrhau bod y data sydd i'w gynnwys yn yr adroddiadau terfynol yn ddilys.

Gellir cael manylion am sut i gysylltu â'r tîm cydadolygu yn y Llawlyfr Cydadolygiadau (Adran 0.1).

3.7 Cysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr

Rhesymeg

Mae cysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn rhan hanfodol o'r cydadolygiadau. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth unigryw i'w chyfrannu am yr hyn sy'n digwydd a'r ffordd orau o wneud gwelliannau.

Mae cydadolygiadau yn effeithiol iawn o ran hybu newid er gwell wrth ddisgrifio'r realiti ar lawr gwlad. Drwy hynny maent yn grymuso rhai o'r rhanddeiliaid lleiaf pwerus yn y gymuned ac yn goleuo rhai o'r rhanddeiliaid mwyaf pwerus yn ardal yr awdurdod lleol.

Fel dinasyddion, mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr hawl i gyfrannu at ddigwyddiadau o bwys, fel cydadolygiad, a fydd yn effeithio ar ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu cael ac ar agweddau allweddol o'u bywydau. Gall hyn helpu i leddfu'r teimlad eu bod yn ddi-rym ac yn cael eu dieithrio.

Mae'r broses adolygu yn fwy effeithiol pan fydd defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn ei ystyried yn ymarfer ar y cyd lle mae iddynt ran allweddol. Mae cydweithrediad yn debygol o gael ei gyflawni os cânt eu hannog i chwarae rhan mor weithredol â phosibl o'r dechrau'n deg.

Maent yn fwy tebygol o rannu gwybodaeth gyda'r sawl sydd yn:

- rhoi gwybodaeth lawn iddynt ar bob cam o'r broses;
- dod o hyd i ddulliau sensitif o gael eu barn;
- talu sylw i'r hyn y maent yn ei ddweud wrth ddod i gasgliadau.

Datganiad o fwriad

Dylai cydadolygiadau gael eu cyflawni gan hoelio sylw amlwg ar brofiad y rhai hynny y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer. Mae'r egwyddor hon yn ganolog i holl broses y cydadolygiadau.

Mae gan yr awdurdod lleol a'r tîm cydadolygu gyfrifoldeb ar y cyd am rymuso defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, gan eu hannog a'u galluogi i fynegi eu safbwyntiau yn agored. Dylai gwir brofiadau'r defnyddwyr a'r gofalwyr, boed y rheini'n gadarnhaol neu'n negyddol, gael eu hadlewyrchu'n gywir.

Bydd y cydadolygiadau yn defnyddio ystod eang o ddulliau i annog defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i gymryd rhan er mwyn cadw'r broses gyfan ar dir cadarn. Bydd y timau cydadolygu yn rhoi ystyriaeth i'r agweddau hyn ar eu gwaith, yn ceisio dysgu o arfer da ac yn gwneud gwelliannau cyson.

Wrth adrodd am y canfyddiadau a ffurfio barn, bydd y tîm cydadolygu yn ystyried materion sy'n ymwneud â chael gafael ar wasanaethau ac ansawdd y gwasanaeth ar y cyd â materion effeithlonrwydd, er mwyn dod i gasgliadau cytbwys.

Meini tramgwydd wrth gyfranogi

Mae annog defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr i gymryd rhan mewn cydadolygiad yn hanfodol bwysig i sicrhau fod y cydadolygiad yn effeithiol. Serch hynny mae goresgyn y materion cynhenid hynny sy'n rhwystro pobl rhag cyfrannu go-iawn yn gryn her. Gall pobl sy'n agored i niwed fod yn bryderus am y canlyniad o fynegi barn ar goedd. Bydd rhai ohonynt yn teimlo'n rhwystredig ac yn flin oherwydd eu profiadau. Gall eraill fod yn amheus a fydd y broses o unrhyw werth yn y pen draw, yn enwedig os ydynt eisoes wedi cael profiad negyddol o ymgynghoriad. Mae llu o wahanol ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr a gall eu buddiannau wrthdaro. Nid yw'r rhai uchaf eu cloch bob amser yn cynrychioli barn y mwyafrif. Mae cyfyngiadau ar bob un o'r dulliau i annog mwy o bobl i gymryd rhan, yn enwedig pan gânt eu defnyddio i grisialu barn grwpiau sy'n cael eu heithrio'n gymdeithasol i raddau helaeth. Mae'n ddigon posibl y bydd y dulliau o annog pobl i gymryd rhan a oedd o help i un grwp o ddefnyddwyr gwasanaethau yn anaddas i grwpiau eraill. Mae gan rai grwpiau systemau eiriolaeth a chymorth mwy datblygedig na grwpiau eraill.

Dulliau o gyfranogi

Yn yr achosion hyn, rhaid i AGCC a SAC fod yn greadigol ac yn arloesol yn eu hymdrechion i annog defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr gymryd rhan. Bydd angen iddynt ddibynnu ar ystod o dechnegau sydd (gyda'i gilydd) yn ddarlun cywir o brofiad y defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr o'u hawdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol.

Mae ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ar broses unwaith ac am byth - fel cydadolygiad, - yn fwy cynhyrchiol mewn awdurdodau lleol sydd eisoes yn annog cyfranogiad. Bydd yr awdurdodau hyn yn croesawu'r cyfle i ddangos eu bod yn ddemocrataidd, a sut y maent wedi cefnogi cyfranogiad ac wedi rhoi adnoddau ar ei gyfer.

Mae'r broses gydadolygu yn dibynnu ar nifer o ddulliau a luniwyd i sicrhau bod y tîm adolygu yn cael dealltwriaeth dda o brofiadau, safbwyntiau a chanfyddiadau defnyddwyr y gwasanaethau a'u gofalwyr. Mae hyn yn graidd i'r gwaith maes wrth adolygu, a cheir mwy o fanylion am y dulliau hyn yn y Llawlyfr Cydadolygiadau.

Gwybodaeth - Mae AGCC a SAC yn darparu taflenni, posteri, patrwm o ddatganiadau i'r wasg a deunydd arall i helpu'r awdurdod lleol hysbysu pobl am y cydadolygiad ac egluro sut y gallant gyfrannu.

Mynediad agored - Yn y deunydd cyhoeddusrwydd hwn, mae'r tîm cydadolygu yn annog pobl i fynegi eu barn a dweud am eu profiadau drwy wahanol ddulliau - yn ysgrifenedig, dros y ffôn, drwy'r e-bost neu drwy wefan.

Holiadur - Caiff hwn ei anfon at amrywiaeth fawr o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, a gaiff eu dewis ar hap. Mae dwy ran iddo. Mae'r rhan gyntaf yn cynnwys cyfres o ddatganiadau syml, gyda blwch i'w dicio ar wahanol raddfeydd i gadarnhau i ba raddau y mae'r sawl sy'n llenwi'r holiadur yn cytuno â'r datganiad. Yn Rhan 2 mae lle i roi sylwadau ychwanegol os dymunir. Mae graddfa'r broses yn gyfle i gasglu gwybodaeth gan nifer fawr o bobl. Gellir dangos peth o'r dystiolaeth yn y fath fodd fel y gellir cymharu ag awdurdodau lleol eraill.

Dadansoddiad o ffeiliau achos - Bydd y tîm cydadolygu yn dadansoddi sampl o ffeiliau achos o bob un o'r prif feysydd gwasanaeth. Byddant yn edrych ar agweddau allweddol o'r ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol (fel mynediad at wasanaethau, asesu, amrediad ac ansawdd y gwasanaethau a ddarparwyd) i ddysgu am sut mae anghenion defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael eu hasesu a'u diwallu. Wrth ddadansoddi'r ffeiliau achos ceir tystiolaeth gref brofiad y defnyddwyr gwasanaethau a'r gofalwyr o bolisïau a systemau'r awdurdod lleol.

Dilyn hynt achosion unigol - O'r sampl o ffeiliau achos, gwahoddir defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i gwrdd, fesul un, ag aelodau o'r tîm cydadolygu, mewn man o'u dewis hwy a gyda chymorth os oes angen.[3] Yn aml iawn, y cyfweliadau hyn yw'r dull mwyaf grymus a buddiol o gadarnhau'r gwirionedd. Maent yn gyfle i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ddisgrifio, yn eu ffordd eu hunain, eu profiad hwy o'r gwasanaethau a'r staff.

Arsylwi - Bydd yr adolygwyr yn arsylwi'n uniongyrchol ambell dro mewn mannau fel derbynfeydd, cyfleusterau preswyl neu ofal dydd. Maent yn achub ar y cyfleoedd hyn i siarad â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, gan gadarnhau sut y maent hwy yn amgyffred yr hyn y maent wedi'i weld neu ei glywed.

Cyfarfodydd gyda grwpiau - Bydd rhan helaeth o'r amser a dreulir gan y tîm cydadolygu ar y safle yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhaglen o gyfarfodydd gyda gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i'r tîm cydadolygu:

- wrando â pharch ar bryderon defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr;
- casglu gwybodaeth;
- cael dealltwriaeth o'r cyd-destun;
- cadarnhau materion sy'n codi o'r dadansoddiad o'r ffeiliau achos a chyfweliadau gyda defnyddwyr unigol a gofalwyr.

Grwp cyfeirio defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr - Bydd gofyn i'r awdurdod lleol sefydlu grŵp cyfeirio, gyda chynrychiolaeth eang, dros gyfnod y cydadolygiad. Caiff ei ddefnyddio ar gyfer cyfres o gyfarfodydd ar adegau allweddol ym mhroses y cydadolygiad, pan fydd angen gwybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ar gyfer gwaith y tîm cydadolygu.

3 Os bydd angen gellir holi'r gweithiwr cymdeithasol neu reolwr achos arall, eu goruchwylydd, yr atgyfeirydd, pobl eraill sy'n darparu gwasanaethau neu weithwyr proffesiynol perthnasol.

Bydd hefyd yn gyfle i drafod y themâu a'r canfyddiadau sy'n amlygu. Mae'r grŵp yn chwarae rhan yn y broses o roi gwybod i'r awdurdod lleol am ganfyddiadau'r cydadolygiad.

Sicrhau ei fod yn gweithio

Caiff y dulliau hyn eu rhoi ar waith yn ddiwyro, o fewn cwmpas yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer pob adolygiad. Mae iddynt oll gyfyngiadau cynhenid. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd llawer wedi ymateb i'r arolygon a'u bod felly yn rhoi eu hunain ar dir i'w dewis. Felly, mae'n bwysig trin pob dull gan gadw mewn cof mai rhan yn unig o'r darlun a geir. Hanfod proses y cydadolygiad yw casglu ynghyd wybodaeth o wahanol ffynonellau. Bydd y dystiolaeth fydd yn cael ei chasglu drwy un dull yn cael ei hystyried yn erbyn y dystiolaeth a gesglir drwy ddulliau eraill, er mwyn dod i gasgliadau cytbwys a dilys.

Mae angen i bob dull ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr a'u cynnwys yn y trafodaethau gael ei ddefnyddio'n fedrus ac yn gydnaws â'r egwyddorion yng nghod ymddygiad y cydadolygiad (a geir yn y Llawlyfr Cydadolygiadau). Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau hawl i barch, cwrteisi a gallu proffesiynol. Cydnabyddir bod angen rhoi amser ac ymdrech drwy'r broses ar ei hyd i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn deall yr hyn sy'n digwydd ac yn rhoi eu caniatâd i gymryd rhan, gyda'r caniatâd hwnnw yn seiliedig ar wybodaeth lawn. Rhaid cymryd gofal i beidio â thramgwyddo ar eu preifatrwydd. Er na ellir trin cyfraniad y defnyddwyr gwasanaethau a'r gofalwyr yn gwbl gyfrinachol a bod posibilrwydd y byddant yn cael eu defnyddio'n fanwl yn yr adroddiad, bydd yr holl achosion enghreifftiol yn cael eu defnyddio'n ddienw, er mwyn diogelu'r bobl berthnasol.

Bydd safbwyntiau defnyddwyr a gofalwyr yn rhan o'r jig-so o dystiolaeth fydd yn cyfrannu at y dadansoddiad o'r cryfderau a'r meysydd datblygu. Byddant hefyd yn tynnu sylw adolygwyr at linellau pwysig o ymchwilio ac yn arwain at gwestiynau ychwanegol a all liwio'r rhaglen gwaith maes neu arwain at fwy o geisiadau am wybodaeth. Caiff barn defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr eu rhoi ochr yn ochr â ffynonellau eraill o wybodaeth, er mwyn cael cadarnhad neu dynnu sylw at anghysondebau wrth chwilio am y wybodaeth deironglog.

Rhaid i bob un fod yn gwbl glir nad diben y cydadolygiad yw datrys cwynion neu broblemau unigolion. Bydd unrhyw farn a fynegir yn gyfraniad at y dystiolaeth sydd i'w hystyried yn yr adolygiad. Felly, ni all adolygwyr gytuno i adrodd yn ôl i ddefnyddwyr a gofalwyr ynghylch digwyddiadau penodol. Byddant yn tynnu sylw uwch reolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol at unrhyw faterion y mae achos mawr i bryderu amdanynt sy'n dod i'r amlwg drwy gysylltu gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr unigol.

3.8 Rôl aelodau etholedig

Gan yr aelodau etholedig (cynghorwyr) y mae'r prif gyfrifoldeb am berfformiad gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol, yn rhinwedd eu swydd fel cynrychiolwyr dinasyddion lleol. Bydd y cydadolygiadau yn cynnwys yr aelodau yn ystod y broses o gasglu tystiolaeth ac wrth roi adborth. Bydd yr adroddiadau yn crybwyll pa mor effeithiol y mae'r arweinyddiaeth wleidyddol yn llywio'r camau a gymerir gan y rheolwyr ac yn gwella gwasanaethau.

Mae cydadolygiad yn debygol o fod â goblygiadau ar gyfer polisi a rheoli adnoddau yn strategol, yn ogystal ag ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad. Disgwylir, felly, y bydd angen i'r aelodau etholedig sydd â rhan i'w chwarae yn y swyddogaethau gweithredol a chraffu ystyried adroddiad y cydadolygiad, cynllun gweithredu'r awdurdod a sut i roi'r canfyddiadau'r adroddiad ar waith. Serch hynny, mae'n arferol i'r adroddiad gael ei gyflwyno'n ffurfiol mewn un cyfarfod cyhoeddus.

3.9 Adnoddau ar gyfer yr adolygiad

Disgwylir i'r cyfnod rhwng y cyfarfod sefydlu gyda'r awdurdod lleol hyd at gyflwyno adroddiad drafft gymryd 6 mis a defnyddio 150 o ddiwrnodau adolygu. Bob blwyddyn, bydd AGCC yn cyhoeddi gwybodaeth am gost gyfartalog pob adolygiad.

Cyfraniad yr awdurdod lleol yw'r amser a'r ymdrech sydd eu hangen gan aelodau etholedig a'r staff o ran cyfrannu at yr adolygiad a chael budd ohono. Mae AGCC a SAC yn cydnabod holl ymdrechion yr awdurdodau i baratoi ar gyfer adolygiadau a chynorthwyo aelodau'r tîm adolygu. Maent wedi gwneud newidiadau mawr i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adolygiadau er mwyn ysgafnhau'r baich hwn, lle bynnag y bo modd. Er enghraifft, ni fydd angen i awdurdodau lleol baratoi datganiadau hirfaith o'r sefyllfa bresennol cyn i'r adolygiad ddechrau ac mae'r amser sy'n cael ei dreulio ar y safle gan y tîm wedi'i ostwng o chwe wythnos i bedair wythnos.

3.10 Amseru'r adolygiad

Gan ddechrau yn 2004, bydd awdurdodau lleol yn cael eu hadolygu yn yr un drefn gyffredinol â'r rownd gyntaf.

Grŵp 1	Powys Tor-faen Sir Gaerfyrddin Rhondda Cynon Taf
Grŵp 2	Ynys Môn Bro Morgannwg Ceredigion Merthyr Tudful
Grŵp 3	Gwynedd Castell-nedd Port Talbot Casnewydd Caerffili
Grŵp 4	Caerdydd Conwy Sir Benfro Blaenau Gwent
Grŵp 5	Pen-y-bont ar Ogwr Sir Ddinbych Sir y Fflint Sir Fynwy
Grŵp 6	Wrecsam Abertawe

Ceir gwybodaeth fanylach am amser yr adolygiadau yn y Cynllun Rheoleiddio blynyddol ar gyfer yr awdurdod lleol. Caiff hwn ei ddefnyddio i sicrhau bod gwaith yr holl arolygiaethau statudol ac asiantaethau gwerthuso perfformiad yn cael ei gyd-drefnu a'i reoli'n briodol.

Mae rhaglen waith gyffredinol AGCC yn sicrhau bod digon o fwlch rhwng y cydadolygiadau ac adolygiadau eraill o'r gwasanaethau. Fel rheol mae pedwar mis rhwng yr adeg pan fydd yr awdurdod lleol yn cael ei hysbysu'n ffurfiol bod y cydadolygiad wedi dechrau a dechrau'r rhaglen gwaith maes. Gall hyn amrywio i gwmpasu pethau fel prif gyfnodau gwyliau a nifer yr adolygwyr neu'r staff allweddol sydd ar gael yn yr awdurdod lleol.

4 Y BROSES ADOLYGU

Mae'r adran hon yn eich arwain yn nhrefn amser drwy dri cham y cydadolygiad a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â phob un ohonynt.

4.1 Camau'r adolygiad

CAM 1 - YR ADOLYGIAD EANG

Gwerthusiad eang a chynhwysfawr yw cam cyntaf y cydadolygiad. Bydd yr adolygwyr yn canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau a defnyddio ystod eang o ddulliau (dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, arolygon, dadansoddi ffeiliau, cyfweld grwpiau o randdeiliaid). Caiff hyn ei ddilyn gan yr asesiad interim lle bydd y wybodaeth o'r rhan gyntaf yn cael ei dadansoddi. Mae'r tîm adolygu yn pennu pa wybodaeth ddibynadwy sydd eisoes wedi dod i law, yn gwneud asesiad dros dro o'r cryfderau a'r gwendidau ac yn penderfynu ar y meysydd i ganolbwyntio arnynt yng Ngham 2, sef y gwaith maes.

Cerrig milltir:

- Hysbysu
- Cyfarfod cynllunio'r adolygiad
- Cyfarfod rhagarweiniol gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a'r tîm rheoli corfforaethol
- Arolygon
- Gwaith maes yr adolygiad eang
- Asesiad interim

CAM 2 - YR ADOLYGIAD MANWL

Yng Ngham 2 y gwneir y brif raglen o waith maes, ac mae'n rhoi archwiliad mwy manwl o feysydd a materion penodol. Unwaith eto, defnyddir ystod o ddulliau (fel astudiaethau achos, cyfweliadau a chyfarfodydd, ymarferion gwerth am arian). Mae rhai o'r dulliau hyn yn rhai safonol ond gellir addasu rhai o'r lleill er mwyn medru archwilio'r meysydd a ddewiswyd yn fwy manwl. Daw'r cam hwn i ben pan fydd y tîm cydadolygu yn cyflwyno'r canfyddiadau allweddol cychwynnol i'r awdurdod lleol.

Cerrig milltir:

- Cyfarfodydd rhagarweiniol
- Gwaith maes (astudiaethau achos, defnyddwyr gwasanaethau/gofalwyr a darparwyr gwasanaethau)
- Gwaith maes (timau asesu/rheoli gofal)
- Gwaith maes (rheolwyr a phartneriaid)
- Cyfarfodydd adborth

CAM 3 - ÔL-WEITHREDU

Mae cam nesaf y cydadolygiad yn canolbwyntio ar atebolrwydd cyhoeddus, cyflawni gwelliannau a monitro'r hyn a wnaed mewn ymateb i'r adolygiad. Mae'n golygu cyflwyno'r adroddiad i'r aelodau etholedig mewn cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd. Bydd yr awdurdod lleol yn paratoi cynllun gweithredu ac mae fframwaith monitro yn cael ei baratoi hefyd lle bydd yr awdurdod lleol,

AGCC a SAC yn cydweithio i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Cerrig milltir:

- Adroddiad drafft
- Cynllun gweithredu
- Cyhoeddi'r adroddiad a'i gyflwyno
- Trosglwyddo
- Gweithgareddau dilynol
- Cymeradwyo

Yn **FFIGUR 2** dangosir y tri cham a'r cerrig milltir mwyaf arwyddocaol sy'n gysylltiedig â hwy.



4.2 Tasgau

I'r awdurdod lleol, y rhanddeiliaid a'r ddau gorff sy'n gyfrifol am y rhaglen o gydadolygiadau, mae pob adolygiad yn golygu llawer iawn o waith. Mae nifer o dasgau sylweddol i'w cyflawni ym mhob cam, fel y dangosir yn Ffigur 3.

FFIGUR 3: TASGAU[4]

	Tasg - Cydadolygiad	Cerrig milltir	Tasg - Awdurdod Lleol	
	CAM 1	**CAM 1 - YR ADOLYGIAD EANG**	**CAM 1**	
1	Llythyr hysbysu	Hysbysu	Penodi swyddog cyswllt	1
2	Archwilio deunydd gwerthuso perfformiad a dechrau'r templed gwybodaeth ragarweiniol			
3	Anfon y templed gwybodaeth ragarweiniol a'r taflenni i'r awdurdod lleol			
4	Briffio'r tîm adolygu			
5	Cyfarfod o'r rheoleiddwyr a'r arolygiaethau		Briffio a chyhoeddusrwydd	2
6	Cyfarfod cynllunio'r adolygiad	Cyfarfod cynllunio'r adolygiad	Cyfarfod cynllunio'r adolygiad	3
7	Cyfarfod rhagarweiniol gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a'r rheolwyr corfforaethol	Cyfarfod rhagarweiniol gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a'r rheolwyr corfforaethol	Cyfarfod rhagarweiniol gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a'r rheolwyr corfforaethol Rhoi gwybodaeth ar gyfer arolygon a samplau achos	4
8	Cael gwybodaeth ar gyfer arolygon			5
9	Dosbarthu arolygon ar gyfer defnyddwyr/gofalwyr/staff/ partneriaid	Arolygon	Helpu i ddosbarthu arolygon ar gyfer defnyddwyr/gofalwyr/ staff/partneriaid	6
10	Paratoi cynllun ar gyfer y samplau o ffeiliau achos		Llenwi'r templed gwybodaeth ragarweiniol a gwybodaeth arall ar gyfer Cam 1	7
11	Rhoi samplau achos i'r awdurdod lleol		Paratoi ar gyfer darllen ffeiliau a gwaith maes Cam 1	8
12	Cwblhau'r templed gwybodaeth ragarweiniol	Gwybodaeth ragarweiniol		
13	Derbyn a dadansoddi arolygon ar gyfer defnyddwyr/gofalwyr/ staff/partneriaid			
14	Gwaith maes Cam 1	Gwaith maes Cam 1	Gwaith maes Cam 1	9
15	Asesiad interim/penderfynu ar feysydd i ganolbwyntio arnynt			

4 Patrwm cyffredinol yw hwn a gall amrywio o adolygiad i adolygiad oherwydd amgylchiadau lleol neu ddigwyddiadau na ellir bod wedi'u rhagweld.

	Tasg - Cydadolygiad	Cerrig milltir	Tasg - Awdurdod Lleol	
	CAM 2	**CAM 2 - YR ADOLYGIAD MANWL**	**CAM 2**	
16	Teilwra'r fethodoleg i adlewyrchu'r ffocws			
17	Cynllunio gwaith maes Cam 2		Cynllunio gwaith maes Cam 2	10
18	Cynnal cyfarfodydd rhagarweiniol yn yr awdurdod lleol a gorffen y rhaglen gwaith maes	Cyfarfodydd rhagarweiniol	Cynnal cyfarfodydd rhagarweiniol yn yr awdurdod lleol a gorffen y rhaglen gwaith maes Trefnu'r rhaglen gwaith maes	11 12
19	Gwaith maes (astudiaethau achos, defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr)	Gwaith maes (astudiaethau achos, defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr)	Gwaith maes (astudiaethau achos, defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr)	13
20	Gwaith maes (timau asesu/rheoli gofal)	Gwaith maes (timau asesu/rheoli gofal)	Gwaith maes (timau asesu/rheoli gofal)	14
21	Gwaith maes (rheolwyr a phartneriaid)	Gwaith maes (rheolwyr a phartneriaid)	Gwaith maes (rheolwyr a phartneriaid)	15
22	Dadansoddi a chynllunio'r adborth		Trefnu cyfarfodydd adborth	16
23	Cyfarfodydd adborth	Cyfarfodydd adborth	Cyfarfodydd adborth	17
	CAM 3	**CAM 3 - ÔL-WEITHREDU**	**CAM 3**	
24	Adroddiad drafft			
25	Safoni			
26	Anfon adroddiad i'r awdurdod lleol		Ymateb i'r adroddiad drafft	18
27	Cytuno ar yr adroddiad gyda'r awdurdod lleol	Adroddiad drafft	Paratoi cynllun gweithredu	19
28	Derbyn y cynllun gweithredu a rhoi sylwadau arno	Cynllun gweithredu		
29	Briffio'r Gweinidogion a pharatoi datganiad i'r wasg		Paratoi ar gyfer cyflwyno'r adroddiad	20
30	Cyhoeddi a chyflwyno'r adroddiad	Cyhoeddi'r adroddiad a'i gyflwyno	Cyhoeddi'r adroddiad a'i gyflwyno Paratoi adroddiad am hynt y gwaith	21 22
31	Trosglwyddo	Trosglwyddo	Trosglwyddo	23
32	Camau Dilynol	Camau Dilynol	Camau Dilynol	24

4.3 Cynllunio prosiectau ar gyfer cydadolygiadau

Os yw proses gyffredinol y cydadolygiad i gael ei chynnal hyd at safon uchel, rhaid i bob tasg gael ei chyflawni yn y drefn gywir ac ar yr adeg gywir. Mae'r rhain yn weithgareddau manwl a chymhleth ac mae angen llawer o baratoi, cynllunio a chydgysylltu i'w cyflawni. Mae rheoli prosiect yn dda yn hollbwysig i bob un sy'n rhan ohono. Bydd yr awdurdod lleol a'r tîm cydadolygu yn gweithredu dan bwysau. Mae'n bwysig bod cyn lleied o darfu â phosibl yn cael ei wneud i waith y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae ffigur 4 yn enghraifft o galendr sy'n cynnwys amserlin ar gyfer cyflawni tasgau a cherrig milltir.

FFIGUR 4 - RHAGLEN

Tasg ar gyfer y tîm cydadolygu	Rhif yr Wythnos	Tasg ar gyfer yr awdurdod lleol
CAM 1	**CAM 1 - ADOLYGIAD EANG**	**CAM 1**
Llythyr hysbysu		Penodi swyddog cyswllt
Anfon y templed gwybodaeth ragarweiniol a'r taflenni		Briffio a chyhoeddusrwydd
Cyfarfod cynllunio'r adolygiad	Wythnos 1	Cyfarfod cynllunio'r adolygiad
Cyfarfod rhagarweiniol gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a'r rheolwyr corfforaethol	Wythnos 2	Cyfarfod rhagarweiniol gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a'r rheolwyr corfforaethol
Derbyn gwybodaeth ar gyfer arolygon a samplau achos	Wythnos 3	Rhoi gwybodaeth ar gyfer arolygon a samplau achos
Dosbarthu arolygon ar gyfer defnyddwyr/gofalwyr/staff/partneriaid	Wythnos 4	Dosbarthu arolygon ar gyfer defnyddwyr/gofalwyr/staff/partneriad
Rhoi samplau achos i'r awdurdod lleol	Wythnos 5	Llenwi'r templed gwybodaeth ragarweiniol a llyfrau gwaith
Llenwi'r templed gwybodaeth ragarweiniol a llyfrau gwaith	Wythnos 7	Paratoi ar gyfer darllen ffeiliau a gwaith maes Cam 1
Derbyn a dadansoddi arolyon ar gyfer defnyddwyr/gofalwyr/staff/partneriaid	Wythnos 8	
Gwaith maes Cam 1	Wythnos 10	Gwaith maes Cam 1
Dadansoddi'r gwaith maes ar gyfer yr adolygiad eang	Wythnos 11	
Asesiad interim/penderfynu ar feysydd i ganolbwyntio arnynt	Wythnos 12	
CAM 2	**CAM 2 - YR ADOLYGIAD MANWL**	**CAM 2**
Teilwra'r fethodoleg i adlewyrchu'r ffocws		
Cynllunio gwaith maes Cam 2	Wythnos 13	Trefnu'r rhaglen gwaith maes
Cynnal cyfarfodydd rhagarweiniol yn yr awdurdod lleol a gorffen y rhaglen gwaith maes	Wythnos 16	Cynnal cyfarfodydd rhagarweiniol yn yr awdurdod lleol a gorffen y rhaglen gwaith maes
Gwaith maes (defnyddwyr/gofalwyr a darparwyr gwasanaethau)	Wythnos 18	Gwaith maes (defnyddwyr/gofalwyr a darparwyr gwasanaethau)
Gwaith maes (timau asesu/rheoli gofal)	Wythnos 20	Gwaith maes (timau asesu/rheoli gofal)
Gwaith maes (rheolwyr a phartneriaid)	Wythnos 22	Gwaith maes (rheolwyr a phartneriaid)
Dadansoddi a chynllunio'r adborth	Wythnos 24	Trefnu cyfarfodydd adborth
Cyfarfodydd adborth	Wythnos 26	Cyfarfodydd adborth

Tasg ar gyfer y tîm cydadolygu	Rhif yr Wythnos	Tasg ar gyfer yr awdurdod lleol
CAM 3	**CAM 3 - ÔL-WEITHREDU**	**CAM 3**
Adroddiad drafft	Wythnos 29	
Safoni	Wythnos 30	
Anfon adroddiad i'r awdurdod lleol	Wythnos 31	
Cytuno ar yr adroddiad gyda'r awdurdod lleol	Wythnos 33	Ymateb i'r adroddiad drafft
Derbyn y cynllun gweithredu a rhoi sylwadau arno	Wythnos 42	Paratoi cynllun gweithredu
Briffio'r Gweinidogion a pharatoi datganiad i'r wasg		Paratoi ar gyfer cyflwyno'r adroddiad
Cyhoeddi a chyflwyno'r adroddiad	Wythnos 46	Cyhoeddi'r adroddiad a'i gyflwyno Paratoi adroddiad am hynt y gwaith
Trosglwyddo	Wythnos 54	Trosglwyddo
Camau Dilynol	Flwyddyn yn ddiweddarach	Camau Dilynol

4.4 Y Llawlyfr Cydadolygiadau

Er hwylustod, mae gwybodaeth fanylach am broses y cydadolygiadau yn y Llawlyfr Cydadolygiadau, ac mae rhestr o'i gynnwys yn Atodiad 1. Mae'r Llawlyfr yn eich arwain yn nhrefn amser drwy wahanol gamau'r broses cydadolygu a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hwy. Mae'n cynnwys templedau, ffurflenni, protocolau, deunyddiau briffio, etc. Mae'r llawlyfr yn cael ei ddefnyddio'n arbennig ar gyfer deunyddiau sydd angen eu diweddaru'n fwy rheolaidd mewn ymateb i:

- adborth oddi wrth awdurdodau lleol, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, y bwrdd cynghori ac eraill;
- gwaith yn AGCC a SAC i wella'r prosesau adolygu;
- datblygiadau ehangach ym maes gofal cymdeithasol a'r llywodraeth.

CYNNWYS Y LLAWLYFR CYDADOLYGIADAU

Cyflwyniad

DOGFENNAU FFRAMWAITH

0.1 Manylion cyswllt ar gyfer cydadolygiadau

0.2 Cod ymddygiad a chwynion

0.3 Rolau a chyfrifoldebau y rhai sy'n cynnal cydadolygiadau:

- 0.3.1 Arweiniad i swyddog cyswllt yr awdurdod lleol
- 0.3.2 Rôl yr asesydd lleyg
- 0.3.3 Rôl arolygydd cyswllt AGCC
- 0.3.4 Rôl rheolwr perthynas SAC a'r archwilydd lleol

0.4 Arweiniad ar gyfer y grŵp cyfeirio defnyddwyr a gofalwyr

0.5 Crynodeb ar gyfer aelodau etholedig

0.6 Ffurfio barn mewn adolygiadau

0.7 Proses y cydadolygiad:

- 0.7.1 Cerrig milltir
- 0.7.2 Tasgau
- 0.7.3 Amserlen

0.8 Y trefniadau ar gyfer rhoi adborth i'r awdurdod lleol yn ystod y gwaith maes a mynd i'r afael â phryderon

CAM 1 - YR ADOLYGIAD EANG

1.1 Disgrifiad

1.2 Taflenni:

- 1.2.1 Y cyhoedd/defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr
- 1.2.2 Staff
- 1.2.3 Partneriaid a rhanddeliaid

1.3 Gwybodaeth ragarweiniol:

- 1.3.1 Arweiniad
- 1.3.2 Templed

1.4 1.4 Amlinelliad o agenda ar gyfer cyfarfod cynllunio'r adolygiad

1.5 Amlinelliad o agenda ar gyfer y cyfarfod rhagarweiniol gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a rheolwyr corfforaethol

1.6 Arolwg o ddefnyddwyr gwasanaethau/gofalwyr: arweiniad i'r awdurdod lleol

1.7 Holiadur i ddefnyddwyr gwasanaethau/gofalwyr

1.8 Canllawiau ar gyfer cynnal yr arolwg staff

1.9 Yr arolwg staff

1.10 Canllawiau ar gyfer arolygu asiantaethau sy'n bartneriaid a phartneriaid corfforaethol

1.11 Arolwg ar gyfer asiantaethau sy'n bartneriaid a phartneriaid corfforaethol

1.12 Dadansoddi ffeiliau achos – arweiniad i'r awdurdod lleol

1.13 Rhestr o ffeiliau achos ar gyfer yr ymarferydd yn yr awdurdod lleol

1.14 Cyfarfodydd gyda'r rhanddeiliaid

1.15 Asesiad interim

CAM 2 - YR ADOLYGIAD MANWL

2.1 Disgrifiad

2.2 Cynllunio'r gwaith maes ar gyfer yr adolygiad manwl

2.3 Ymweliadau rhagarweiniol

2.4 Ymweliadau gwaith maes – arweiniad i'r awdurdod lleol

- 2.4.1 Wythnos 1 - Defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, eiriolwyr a darparwyr gwasanaethau
- 2.4.2 Wythnos 2 - Timau asesu/rheoli gofal
- 2.4.3 Wythnos 3 - Arweiniad gwleidyddol, rheolwyr a phartneriaid

2.5 Deunydd briffio ar gyfer ymweliadau gwaith maes:

- 2.5.1 Defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr -
  - 2.5.1.1 grwpiau
  - 2.5.1.2 ungolion
- 2.5.2 Darparwyr gwasanaethau
- 2.5.3 Sefydliadau eraill

2.6 Yr asesiad terfynol

2.7 Arweiniad i gyfarfodydd adborth

CAM 3 - ÔL-WEITHREDU

3.1 Disgrifiad

3.2 Paratoi'r adroddiad

3.3 Arweiniad ar gyfer paratoi cynllun gweithredu a chytuno arno

3.4 Cyflwyno, cyhoeddi a dosbarthu'r adroddiad

3.5 Ffurflen gwerthuso'r adolygiad

3.6 Trosglwyddo a chamau dilynol

3.7 Y protocol ar gyfer ymyrryd